COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# *ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL 2025/2026*

© Hawlfraint CDFfC 2026

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Os ydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn at y Comisiwn yn ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Mae'r ddogfen hon ar gael o'n gwefan hefyd yn www.cdffc.llyw.cymru

# Cynnwys

**ADRODDIAD AR BERFFORMIAD** **1**

**ADRODDIAD ATEBOLRWYDD** **14**

**DATGANIADAU ARIANNOL** **44**

## RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) ar gyfer 2025/26. Bu'n flwyddyn arwyddocaol i'r Comisiwn, wrth i ni barhau i gyflawni ein cyfrifoldebau sefydledig i arolygu ffiniau a chymunedau ar yr un pryd ag ymgorffori swyddogaethau newydd pwysig sy'n cryfhau ein rôl wrth gefnogi democratiaeth yng Nghymru.

Gwnaeth y Comisiwn gynnydd sylweddol wrth gaffael a datblygu platfform cenedlaethol cyntaf Cymru sy'n rhoi gwybodaeth am etholiadau cyn etholiad Senedd mis Mai 2026. Bydd y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig, a gefnogir gan drefniadau llywodraethu cadarn, sicrwydd technegol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn darparu gwybodaeth hygyrch, ddiduedd ac awdurdodol i bleidleiswyr.

Carreg filltir arall bwysig oedd trosglwyddo'r cyfrifoldeb am drefniadau cydnabyddiaeth ariannol o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Comisiwn ar 1 Ebrill 2025. Yn ystod 2025/26, sefydlodd y Comisiwn y trefniadau llywodraethu, ymchwil ac ymgysylltu sy'n ofynnol i gefnogi penderfyniadau tryloyw ar gydnabyddiaeth ariannol sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth, a chyhoeddodd ei Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2026/27.

Cytunodd y Comisiwn ar ei Gynllun Corfforaethol 2025-2030 hefyd, sy'n darparu fframwaith strategol clir ar gyfer y blynyddoedd i ddod ac yn adlewyrchu ei ymrwymiad i ffiniau teg, cydlynu etholiadol effeithiol, penderfyniadau tryloyw ar gydnabyddiaeth ariannol ac ymddiriedaeth gyhoeddus.

Wrth edrych tua'r dyfodol, bydd 2026/27 yn flwyddyn arall bwysig. Bydd y Comisiwn yn parhau i gefnogi cyflwyno etholiad Senedd 2026, yn datblygu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol a'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig ymhellach, yn datblygu ei raglen arolygon, ac yn mireinio ei ddull o wneud penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol.

Hoffwn ddiolch i'm cyd Gomisiynwyr, aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Prif Weithredwr a'r holl staff am eu proffesiynoldeb, eu hymroddiad a'u gwydnwch yn ystod blwyddyn o newid mawr. Diolchaf hefyd i'n partneriaid ar draws Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y gymuned etholiadol a chymdeithas ddinesig ehangach am eu hymgysylltiad adeiladol a'u cefnogaeth.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn esbonio sut mae'r Comisiwn wedi defnyddio'r Cymorth Grant a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru a chyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn ystod 2025/26.

Karen Jones
Cadeirydd
7 Hydref 2026

# ADRODDIAD AR BERFFORMIAD
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026**

## TROSOLWG

Mae'r adran hon yn crynhoi diben y Comisiwn, ei amcanion corfforaethol, y risgiau allweddol i gyflawni ei amcanion a sut mae wedi perfformio yn ystod y flwyddyn.

### Datganiad y Prif Weithredwr ar Berfformiad y Comisiwn

Amlinellodd Llythyr Cylch Gwaith Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (y Comisiwn) dyddiedig 22 Gorffennaf 2025, a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, amcanion y Comisiwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Cyflwynwyd cynllun gweithredol dilynol i Lywodraeth Cymru yn amlinellu sut y byddai'r Comisiwn yn cyflawni ei amcanion.

Rwyf o'r farn bod y Comisiwn wedi cyflawni'r amcanion a nodwyd yn y Llythyr Cylch Gwaith. Ystyrir hyn yn fanylach yn adrannau Dadansoddiad o Berfformiad ac Adolygiad o Weithgareddau yr adroddiad hwn, ar dudalennau 3 i 9.

### Datganiad o Ddiben a Gweithgareddau

Mae'r Comisiwn yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y Comisiwn ym 1974 o dan delerau Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ac fe'i hailenwyd o dan delerau Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (Deddf 2013). Ar ôl pasio Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024, ailenwyd y Comisiwn yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013. Mae darpariaethau Deddf 2013 mewn perthynas â'r Comisiwn yn disodli rhai Deddf 1972.

Diben y Comisiwn yw:

- monitro ardaloedd a threfniadau etholiadol sy'n berthnasol i lywodraeth leol yng Nghymru er mwyn ystyried a yw'n briodol gwneud neu argymell newidiadau. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau, mae'n rhaid i'r Comisiwn geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.
- arolygu ffiniau etholaethau'r Senedd yn barhaus ar gyfer ethol Aelodau'r Senedd,
- cydlynu gweinyddu etholiadau a refferenda Cymru (etholiadau Senedd Cymru, etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru a refferenda datganoledig) trwy'r Bwrdd Rheoli Etholiadol.
- pennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig a chyfetholedig Prif Gynghorau, Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol, Cynghorau Cymuned a Thref, Awdurdodau Parc Cenedlaethol, Awdurdodau Tân ac Achub a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.

### Amcanion Corfforaethol

Amcanion Corfforaethol y Comisiwn, y cytunwyd arnynt ym mis Ionawr 2026, yw:

- **Cyflawni ffiniau teg ac effeithiol ar draws pob haen democratiaeth yng Nghymru.**

- **Cydlynu Rheolaeth Etholiadol yng Nghymru.**

- **Gwneud penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol sy'n dryloyw ac wedi'u seilio ar dystiolaeth.**

- **Meithrin ymddiriedaeth trwy ymgysylltu, bod yn agored, a rhagoriaeth sefydliadol.**

## Risgiau ac ansicrwydd

Blwyddyn ariannol 2025-26 oedd y flwyddyn lawn gyntaf i'r Comisiwn weithredu ei swyddogaethau statudol newydd fel Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Roedd hwn yn gyfnod arwyddocaol o bontio sefydliadol a deddfwriaethol, wrth i'r Comisiwn symud o'i gylch gwaith blaenorol i rôl statudol ehangach sy'n rhychwantu ei gyfrifoldebau sefydledig i arolygu ffiniau a dwy swyddogaeth newydd o bwys: sefydlu a gweithredu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol sy'n cynnwys datblygu a chynnal y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig, a chyfrifoldeb am y fframwaith cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau etholedig a chyfetholedig. Felly, roedd y prif risgiau ac ansicrwydd a oedd yn wynebu'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn yn ymwneud â gweithredu'r swyddogaethau newydd hyn yn effeithiol, datblygu'r capasiti a'r gallu angenrheidiol, ymgorffori trefniadau llywodraethu a sicrwydd priodol, a chynnal hyder rhanddeiliaid yn uniondeb, annibyniaeth ac ansawdd ei waith.

Mae'r Comisiwn yn rheoli'r risgiau hyn trwy fframwaith rheoli risg integredig sy'n cynnwys ei Gofrestr Risg Gorfforaethol, Cofrestr Risg Weithredol a chyfres o gofrestrau penodol i swyddogaeth, gan gynnwys y rhai hynny sy'n ymwneud â TGCh, pensiynau a chyflawni rhaglenni. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cyfleu'r risgiau strategol sy'n fwyaf tebygol o effeithio ar gyflawni amcanion corfforaethol y Comisiwn, gan gynnwys cynaliadwyedd ariannol, capasiti'r gweithlu, effeithiolrwydd llywodraethu, seiberddiogelwch a diogelwch gwybodaeth, parhad busnes, ymgysylltu â rhanddeiliaid, risg i enw da a chyflawni rhwymedigaethau statudol. Mae cofrestrau gweithredol a swyddogaethol yn darparu goruchwyliaeth reoli fanylach o risgiau sy'n gysylltiedig â meysydd gwaith unigol, gan gynnwys cyflawni rhaglenni adolygu etholiadol a chymunedol ac, yn arbennig, blwyddyn weithredu gynaf y Bwrdd Rheoli Etholiadol, y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig a'r swyddogaeth cydnabyddiaeth ariannol. Mae'r cofrestrau hyn hefyd yn helpu i oruchwylio gweithgarwch ymchwil, cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, ystyriaethau cydraddoldeb a llywodraethu gwybodaeth.

Yn ystod 2025-26, rhoddwyd sylw penodol i risgiau gweithredu blwyddyn gyntaf sy'n deillio o'r swyddogaethau newydd. O ran y Bwrdd Rheoli Etholiadol, roedd y rhain yn cynnwys sefydlu trefniadau gweithredu effeithiol, egluro rolau a chyfrifoldebau, cefnogi cyflawni'r rhaglen waith a chynnal hyder ar draws y gymuned etholiadol a datblygu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig. Mae gan y Platfform ei gyfres ei hun o risgiau allweddol sy'n gysylltiedig â datblygu a chynnal gwasanaeth digidol diogel a gwydn sy'n cydymffurfio cyn etholiad Senedd mis Mai 2026, gan gynnwys seiberddiogelwch, rheoli cyflenwyr, diogelu data, parhad busnes a sicrwydd technegol. O ran y swyddogaeth cydnabyddiaeth ariannol, roedd risgiau'n canolbwyntio ar sefydlu sylfaen dystiolaeth gadarn, sicrhau penderfyniadau tryloyw a phrydlon, rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid, a chynnal annibyniaeth a thegwch wrth wneud penderfyniadau. Ar draws yr holl swyddogaethau, gwnaeth y Comisiwn hefyd fonitro risgiau yn ymwneud â chapasiti'r gweithlu, sgiliau arbenigol, darparu cyllideb, llywodraethu, iechyd a diogelwch, twyll, rheolaeth ariannol, caffael, cydymffurfio â safonau'r Gymraeg a dyletswyddau cydraddoldeb.

Adolygir cofrestrau risg trwy strwythur llywodraethu'r Comisiwn, ystyrir risgiau strategol ym mhob cyfarfod o'r Comisiwn ac adolygir yr holl gofrestrau perthnasol gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r Uwch Dîm Rheoli'n adolygu risgiau gweithredol a swyddogaethol yn barhaus, gan uwchgyfeirio materion pan fydd angen cryfhau rheolaethau neu pan y gallai risgiau effeithio ar gyflawni amcanion y Comisiwn. Mae archwilwyr mewnol y

Comisiwn yn rhoi sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd rheolaethau mewnol, ac mae'r argymhellion sy'n deillio o adroddiadau archwilio mewnol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'u gweithredu trwy gamau gweithredu rheoli cytunedig. Mae'r Comisiwn hefyd yn cynnal Cynllun Parhad Busnes sy'n cael ei adolygu a'i brofi'n rheolaidd i gefnogi gwydnwch sefydliadol.

Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod rheoli risg yn effeithiol yn rhan annatod o lywodraethu da a chyflawni llwyddiannus. Dyluniwyd ei ddull i sicrhau bod risgiau'n cael eu hamlygu'n gynnar, eu hasesu'n gyson, eu rheoli ar y lefel briodol a'u hadrodd yn dryloyw, gan alluogi'r Comisiwn i wneud penderfyniadau cymesur i gefnogi ei swyddogaethau statudol a'i amcanion corfforaethol. Ceir rhagor o fanylion am fframwaith rheoli risg y Comisiwn yn y Datganiad Llywodraethu ar dudalen 24.

**Busnes Gweithredol**

Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes gweithredol. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, rwy'n fodlon y caiff y rhwymedigaethau cyfredol net eu hariannu gan adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru (Cymorth Grant) yn y dyfodol.

**Crynodeb o Berfformiad**

Yn ystod 2025-26, gweithiodd y Comisiwn i gyflawni'r amcanion a amlinellwyd yn y Llythyr Cylch Gwaith a gyhoeddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol ar 22 Gorffennaf 2025. Dyna oedd blwyddyn weithredu lawn gyntaf cylch gwaith statudol ehangach y Comisiwn yn dilyn Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 a Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024. Canolbwyntiodd y Comisiwn ar gynnal busnes fel arfer wrth sefydlu ac ymgorffori ei swyddogaethau newydd, gan gynnwys cydlynu etholiadau a'r swyddogaeth cydnabyddiaeth ariannol. Mae'r Comisiwn o'r farn ei fod wedi gwneud cynnydd effeithiol yn unol ag amcanion y Llythyr Cylch Gwaith, fel yr amlinellir yn y Dadansoddiad o Berfformiad isod.

**DADANSODDIAD O BERFFORMIAD**

Ar gyfer 2025-26, fe wnaeth y Llythyr Cylch Gwaith a gyhoeddwyd ar 22 Gorffennaf 2025 amlinellu'r disgwyliadau canlynol ar gyfer y Comisiwn, sef:

- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni bwriadau polisi a gweithredol darpariaethau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024.
- Cynnal y Bwrdd Rheoli Etholiadol a sicrhau ei fod yn cyflawni ei raglen waith yn effeithiol.
- Sefydlu a chynnal Platfform Gwybodaeth am Etholiadau yn unol â'r Rheoliadau, cyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.
- Archwilio'r potensial am bolisi maint cyngor cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru a gwneud argymhellion.
- Ystyried yr angen am daliadau ymaddasu a darparu briff i swyddogion i ystyried unrhyw reoliadau a allai fod yn ofynnol.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gyflawni'r rhaglen arolygon nesaf, gan adolygu amserlenni, fel y bo angen.
- Parhau i gefnogi prif gynghorau, lle bo'n bosibl, i ddatblygu arolygon cymunedol ledled Cymru.
- Cyfrannu at recriwtio aelodau yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt gyda Gweinidogion er mwyn sicrhau bod aelodau ar waith sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol i alluogi'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau.
- Amlygu a chyflawni rhaglen ymchwil a strategaeth gyfathrebu.

- Adolygu'r Fframwaith a'r Fethodoleg ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol Rolau Uwch mewn Prif Gynghorau, Cynghorau Cymuned a Thref a Chyd-bwyllgorau Corfforedig.
- Adolygu'r cysylltiad meincnod â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ac asesiad o lwythi gwaith aelodau.

Amlinellodd cynllun gweithredol y Comisiwn sut byddai'n cyflawni gofynion y Gweinidog. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r camau gweithredu a gymerwyd ac i ba raddau y cyflawnwyd amcanion y Llythyr Cylch Gwaith yn ystod 2025-26:

| | |
|---|---|
| Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni bwriadau polisi a gweithredol darpariaethau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 a Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024. | Gweithiodd y Comisiwn yn agos gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol drwy gydol y flwyddyn i gefnogi gweithredu Deddfau 2024. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu ynglŷn â datblygu polisi, cynllunio gweithredol, trefniadau llywodraethu a'r newid ymarferol i gylch gwaith estynedig CDFfC.<br><br>Parhaodd y Comisiwn i gymryd rhan yng Ngrŵp Cyflawni Diwygio Etholiadol y Senedd, gan arwain ar feysydd gwaith sy'n gysylltiedig â ffiniau a chydlynu etholiadau. |
| Cynnal y Bwrdd Rheoli Etholiadol a sicrhau ei fod yn cyflawni ei raglen waith yn effeithiol. | Canolbwyntiodd Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru ar sefydlu ei hun fel y corff cenedlaethol statudol sy'n gyfrifol am gydlynu gweinyddu etholiadau datganoledig yng Nghymru. Canolbwyntiodd ei waith ar baratoi cymuned etholiadol Cymru ar gyfer etholiad Senedd 2026, gan gynnwys gweithredu diwygiadau etholiadol sylweddol, cryfhau cydweithio rhwng Swyddogion Canlyniadau, hyrwyddo cysondeb o ran gweinyddu etholiadol, cefnogi cynllunio gweithredol a rheoli risg cenedlaethol, a gweithio gyda phartneriaid i wella gwybodaeth i bleidleiswyr a chofrestru etholiadol. Yn ogystal, cefnogodd y Bwrdd baratoadau ar gyfer cynlluniau peilot cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, a datblygodd y trefniadau llywodraethu a gweithredol sy'n angenrheidiol i ddarparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer cyflawni etholiadau datganoledig yn y dyfodol ledled Cymru. |
| Sefydlu a chynnal Platfform Gwybodaeth am Etholiadau yn unol â'r Rheoliadau, cyn etholiad y Senedd ym mis Mai 2026. | Cynhaliodd y Comisiwn ymarfer caffael sylweddol i sicrhau'r cymorth technegol arbenigol a oedd yn ofynnol i sefydlu a chynnal y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau cyn etholiad Senedd mis Mai 2026. Cyflogwyd ymgynghorwyr i helpu i ddatblygu a dylunio'r platfform, gan weithio gyda'r Comisiwn i drosi'r gofynion |

| | |
|---|---|
| | rheoleiddiol yn wasanaeth digidol ymarferol a diogel sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. Sefydlwyd grŵp llywio penodol i oruchwylio'r broses gyflawni'n strategol, a gefnogwyd gan drefniadau llywodraethu rhaglen, rheoli risg, rheoli cyflenwyr ac adroddiadau rheolaidd i sicrhau bod y prosiect yn cael ei reoli'n effeithiol.<br>Rhoddwyd trefniadau llywodraethu gwybodaeth ar waith ar gyfer y platfform hefyd, gan gynnwys ystyried diogelu data, rheolaethau mynediad, seiberddiogelwch, gwydnwch a gofynion parhad busnes. Cynhaliwyd profion â defnyddwyr i lywio datblygiad, profi ymarferoldeb a chefnogi parodrwydd gweithredol. Cynlluniwyd y gwaith hwn i sicrhau y byddai'r platfform yn gallu cefnogi gofynion pleidleiswyr am wybodaeth ac anghenion gweinyddu etholiadol ehangach cyn etholiad y Senedd. |
| Archwilio'r potensial am bolisi maint cyngor cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru a gwneud argymhellion. | Sefydlodd y Comisiwn grŵp llywio i oruchwylio gwaith ar archwilio'r potensial am bolisi maint cyngor cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref yng Nghymru. Roedd aelodau'r grŵp yn cynnwys Un Llais Cymru i sicrhau bod gwybodaeth gan y sector a phrofiad ymarferol yn llywio'r gwaith. Caffaelwyd cwmni ymchwil arbenigol i helpu i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth a darparu arbenigedd ymchwil annibynnol. Datblygwyd holiadur i gasglu safbwyntiau a thystiolaeth gan randdeiliaid perthnasol, i'w ddosbarthu ar ôl etholiad y Senedd i ystyried y cyfnod cyn-etholiad a sicrhau ymgysylltiad priodol. |
| Ystyried yr angen am daliadau ymaddasu a darparu briff i swyddogion i ystyried unrhyw reoliadau a allai fod yn ofynnol. | Cynhaliodd y Comisiwn ymchwil ynglŷn â threfniadau taliadau ymaddasu, gan gynnwys ystyried dulliau a ddefnyddir ledled y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Llywiodd y gwaith hwn asesiad o opsiynau posibl ar gyfer cynllun a'r materion y byddai angen mynd i'r afael â nhw petai taliadau ymaddasu'n cael eu cyflwyno. Yn dilyn y gwaith hwn, ysgrifennodd y Comisiwn at Ysgrifennydd y Cabinet i geisio cadarnhad ynglŷn â ph'un a oedd Gweinidogion Cymru yn bwriadu gosod rheoliadau ynglŷn â thaliadau ymaddasu, er mwyn sicrhau y gallai unrhyw waith gan y Comisiwn yn y dyfodol gael ei gysylltu'n briodol â bwriadau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. |

| | |
|---|---|
| Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gyflawni'r rhaglen arolygon nesaf, gan adolygu amserlenni, fel y bo angen. | Gweithiodd y Comisiwn gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol i gyflawni'r rhaglen arolygon nesaf, gan gynnwys adolygu a diweddaru amserlenni i adlewyrchu'r capasiti sydd ar gael o fewn Llywodraeth Cymru i ystyried argymhellion terfynol.<br><br>Gwnaed addasiadau priodol i'r amserlen arolygon i sicrhau bod y rhaglen yn aros yn gyflawnadwy ac yn gymesur a'i bod yn cyd-fynd â gofynion cynllunio etholiadol ehangach.<br><br>Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Comisiwn dri arolwg etholiadol yn rhan o'r rhaglen. |
| Parhau i gefnogi prif gynghorau, lle bo'n bosibl, i ddatblygu arolygon cymunedol ledled Cymru. | Parhaodd y Comisiwn i roi cyngor a chymorth arbenigol i brif gynghorau sy'n cynnal eu harolygon cymunedol eu hunain, gan helpu i hyrwyddo gweithgarwch arolygu effeithiol a chyson sy'n cydymffurfio â'r gyfraith ledled Cymru. Roedd hyn yn cynnwys rhoi arweiniad ar y broses, gofynion statudol ac arfer da lle'r oedd cynghorau'n datblygu cynigion ar gyfer newidiadau i ffiniau cymunedol neu drefniadau etholiadol. Yn ogystal, ystyriodd y Comisiwn gyflwyniadau arolwg cymunedol a wnaed gan brif gynghorau, gwnaeth benderfyniadau ar yr arolygon hynny yn unol â'i gyfrifoldebau statudol, a phasiodd y Gorchmynion perthnasol i weithredu newidiadau cymeradwy. |
| Cyfrannu at recriwtio aelodau yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt gyda Gweinidogion er mwyn sicrhau bod aelodau ar waith sy'n meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol i alluogi'r Comisiwn i gyflawni ei swyddogaethau. | Cymerodd y Comisiwn ran mewn gweithgarwch recriwtio aelodau yn unol ag amserlenni y cytunwyd arnynt gyda Gweinidogion, gan gefnogi penodiadau a fyddai'n darparu'r sgiliau, y profiad a'r capasiti sy'n ofynnol i gyflawni swyddogaethau statudol estynedig y Comisiwn. Recriwtiwyd a phenodwyd Cadeirydd newydd yn ystod y flwyddyn, gan ddarparu arweiniad parhaus wedi i gyfnod y Cadeirydd blaenorol ddod i ben. Yn ogystal, cytunodd Llywodraeth Cymru i ymestyn cyfnodau aelodau presennol er mwyn cefnogi sefydlogrwydd a chynnal gwydnwch gweithredol y Comisiwn yn ystod cyfnod o newid mawr. Cynhaliwyd ymarfer recriwtio arall hefyd tua diwedd 2025-26 fel y byddai cyflenwad llawn o aelodau ar waith yn ystod 2026-27, gan sicrhau bod gan |

| | |
|---|---|
| | y Comisiwn y capasiti llywodraethu a'r arbenigedd ar y cyd sy'n angenrheidiol i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol. |
| Amlygu a chyflawni rhaglen ymchwil a strategaeth gyfathrebu. | Amlygodd a chyflawnodd y Comisiwn raglen strwythuredig o waith ymchwil yn ystod 2025-26 i gryfhau penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth ar draws ei swyddogaethau statudol estynedig. Canolbwyntiodd y cynllun ymchwil ar feysydd allweddol o bwysigrwydd strategol, gan gynnwys y posibilrwydd o ddatblygu polisi maint cyngor cenedlaethol ar gyfer cynghorau cymuned a thref, ymchwil i lywio cynllunio a chyflwyno'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig, a gwaith tystiolaeth ynglŷn â'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol a thaliadau ymaddasu. Darparodd y rhaglen hon sail glir i gefnogi penderfyniadau Gweinidogol, llywio cyflawni gweithredol a chryfhau gallu'r Comisiwn i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.<br>O ran cyfathrebu ac ymgysylltu, sefydlodd y Comisiwn fframwaith o egwyddorion cyfathrebu ac ymgysylltu i ddarparu sylfaen gyson ar gyfer sut mae'n cyfathrebu â rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyhoedd. Yn hytrach na gweithredu fel strategaeth gyfathrebu annibynnol unigol, mae'r fframwaith bellach yn llywio'r broses o ddatblygu cynlluniau cyfathrebu wedi'u teilwra ar gyfer pob rhaglen waith a phrosiect. Mae hyn yn sicrhau bod gweithgarwch cyfathrebu'n gymesur, yn canolbwyntio ar y gynulleidfa, yn ddwyieithog, yn hygyrch ac yn cyd-fynd ag amcanion, risgiau, cerrig milltir ac anghenion rhanddeiliaid pob maes cyflawni. |
| Adolygu'r Fframwaith a'r Fethodoleg ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol Rolau Uwch mewn Prif Gynghorau, Cynghorau Cymuned a Thref a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. | Adolygodd y Comisiwn y Fframwaith a'r Fethodoleg ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol Rolau Uwch mewn Prif Gynghorau, Cynghorau Cymuned a Thref a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i gefnogi dull tryloyw, cyson ac wedi'i seilio ar dystiolaeth o wneud penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol. Roedd hyn yn cynnwys ymgymryd ag ymchwil i asesu sut mae'r fframwaith presennol yn gweithredu, ystyried y sylfaen dystiolaeth ar gyfer lefelau cyflog a chyfrifoldebau rôl uwch, ac amlygu meysydd lle gallai fod angen mireinio'r fethodoleg. |

| | |
|---|---|
| | Ymgysylltwyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelodau etholedig i sicrhau bod yr adolygiad yn cael ei lywio gan brofiad ymarferol, gwybodaeth gan y sector a dealltwriaeth o'r gofynion a osodir ar gynrychiolwyr etholedig.<br><br>Bydd canfyddiadau'r gwaith hwn yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith cydnabyddiaeth ariannol y Comisiwn ar gyfer 2026-27, gan gefnogi penderfyniadau yn y dyfodol sy'n gadarn, yn gymesur ac yn cyd-fynd â gwirioneddau gwasanaeth cyhoeddus mewn llywodraeth leol. |
| Adolygu'r cysylltiad meincnod â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ac asesiad o lwythi gwaith aelodau. | Adolygodd y Comisiwn y cysylltiad meincnod â'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion ac ystyriodd dystiolaeth ynglŷn â llwythi gwaith aelodau yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ehangach ar gyfer penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol. Cynhaliwyd gwaith ymchwil ac ymgysylltu i archwilio opsiynau meincnodi amgen ac asesu sut gallai dulliau gwahanol gefnogi sail deg, dryloyw a chynaliadwy ar gyfer penderfyniadau yn y dyfodol. Bydd canlyniadau'r gwaith hwn yn cael eu hystyried yn rhan o benderfyniadau 2026-27 y Comisiwn, gan sicrhau bod unrhyw ddull yn y dyfodol yn cael ei lywio gan dystiolaeth, gwybodaeth gan randdeiliaid a gwirioneddau ymarferol llwythi gwaith aelodau etholedig. |

Cytunodd y Comisiwn ar ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2025-2030 ym mis Ionawr 2026. Mae'r Cynllun yn amlinellu gweledigaeth y Comisiwn ar gyfer system ddemocrataidd gynhwysol sy'n adlewyrchu cymunedau Cymru, a'i genhadaeth i gyflawni arolygon effeithiol, cydnabyddiaeth ariannol deg a chydlynu etholiadol sy'n cryfhau democratiaeth Cymru. Mae hefyd yn amlinellu gwerthoedd y Comisiwn, sef annibyniaeth, cynhwysiant, penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth a chydweithio, sy'n sail i gyflawni ar draws holl feysydd ei gylch gwaith statudol estynedig.

Mae'r Cynllun wedi'i strwythuro o amgylch pedwar amcan strategol.

Mae'r cyntaf, sef cyflawni ffiniau teg ac effeithiol ar draws pob haen democratiaeth yng Nghymru, yn adlewyrchu cyfrifoldeb y Comisiwn i sicrhau bod ffiniau etholiadol a gweinyddol yn deg, yn effeithiol ac yn ystyrlon i'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu, gan ystyried hunaniaethau lleol, cysylltiadau cymunedol, daearyddiaeth a newid demograffig rhagamcanol.

Yr ail amcan yw cydlynu rheolaeth etholiadol yng Nghymru. Trwy sefydlu ac arwain y Bwrdd Rheoli Etholiadol, bydd y Comisiwn yn helpu i gyflawni etholiadau a refferenda datganoledig gydag unplygrwydd, proffesiynoldeb a hyder cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo arfer

gorau, cyhoeddi arweiniad a chyfarwyddiadau, cryfhau cydweithio ar draws y gymuned etholiadol a chefnogi gweinyddiaeth etholiadol gyson ledled Cymru.

Y trydydd amcan yw gwneud penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol sy'n dryloyw ac wedi'u seilio ar dystiolaeth. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cadarnhau ymrwymiad y Comisiwn i sicrhau bod trefniadau cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer aelodau etholedig yn deg, yn dryloyw ac yn cefnogi democratiaeth amrywiol a chynrychioliadol. Bydd penderfyniadau'n cael eu llywio gan ymchwil, ymgysylltu â rhanddeiliaid a dadansoddi cymharol, ac fe'u cynllunnir i adlewyrchu gwirioneddau gwasanaeth cyhoeddus ar yr un pryd â chefnogi cyfranogiad a chadw mewn swyddi etholedig.

Y pedwerydd amcan yw cynyddu ymddiriedaeth trwy ymgysylltu, bod yn agored a rhagoriaeth sefydliadol. Mae'r amcan hwn yn cydnabod bod system ddemocrataidd yr ymddiriedir ynddi yn dibynnu ar ymgysylltu dilys, gwneud penderfyniadau'n dryloyw a llywodraethu sefydliadol cryf. Bydd y Comisiwn yn blaenoriaethu ymgysylltu hygyrch a dwyieithog, yn gweithredu'n agored ac yn dryloyw, yn rheoli risg yn effeithiol, ac yn buddsoddi yn y bobl, y systemau, y gallu digidol a'r gwydnwch sefydliadol sy'n ofynnol i gyflawni ei swyddogaethau statudol.

Gyda'i gilydd, mae'r amcanion hyn yn darparu'r fframwaith a ddefnyddir gan y Comisiwn i fonitro ac adrodd ar berfformiad ar hyd oes y Cynllun Corfforaethol. Maen nhw hefyd yn cysylltu gwaith cyflawni blynyddol, llywodraethu, ymgysylltu, ymchwil, iaith Gymraeg, cydraddoldeb a digidol y Comisiwn â'i gyfrifoldebau statudol hirdymor a'i gyfraniad ehangach at gryfhau democratiaeth Cymru.

## Adolygiad o Weithgareddau yn ystod 2025-26

### Cyflawni ein Swyddogaethau Statudol

Mae'r Comisiwn yn bodoli i gryfhau democratiaeth yng Nghymru trwy wneud penderfyniadau annibynnol, wedi'u seilio ar dystiolaeth a chyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Yn ystod 2025-26, fe wnaethom barhau i gyflawni ein rhaglen sefydledig o arolygon etholiadol a chymunedol ar yr un pryd ag ymsefydlu swyddogaethau statudol newydd sylweddol yn llwyddiannus yn dilyn cychwyniad Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Bu'n flwyddyn drawsnewidiol i'r Comisiwn. Ochr yn ochr â pharhau i gyflawni ein swyddogaethau arolygu craidd, fe wnaethom ymgymryd â'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parc cenedlaethol a chyd-bwyllgorau corfforedig, sefydlu a chefnogi Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru, a datblygu platfform gwybodaeth am etholiadau cyntaf Cymru. Mae'r cyfrifoldebau newydd hyn wedi ehangu rôl y Comisiwn yn sylweddol wrth gefnogi llywodraethu democrataidd a gweinyddu etholiadol ledled Cymru.

Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliodd y Comisiwn ei ymrwymiad i'w egwyddorion craidd, sef annibyniaeth, tryloywder, cydweithio a gwneud penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth, gan sicrhau bod pob agwedd ar ei waith yn cyfrannu at gynnal hyder mewn sefydliadau democrataidd ledled Cymru.

### Arolygon Etholiadol

Parhaodd y Comisiwn i ddatblygu ei raglen arolygon etholiadol o brif gynghorau i sicrhau bod trefniadau etholiadol yn parhau i fod yn deg ac yn effeithiol a'u bod yn adlewyrchu newidiadau i gymunedau lleol ac etholwyr.

Cynhaliwyd pob arolwg yn unol â'r meini prawf statudol, gan gydbwyso'r angen i gyflawni cydraddoldeb etholiadol â chynnal hunaniaeth gymunedol a sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Roedd arolygon yn cynnwys dadansoddi data demograffig ac etholiadol yn helaeth, gwaith mapio manwl, ac ymgysylltu â phrif gynghorau, aelodau etholedig, grwpiau gwleidyddol, cynghorau cymuned a thref, cyrff cyhoeddus a phreswylwyr lleol.

Roedd ymgynghori'n ganolog i'n dull, gan alluogi rhanddeiliaid i gyfrannu gwybodaeth leol a sicrhau bod argymhellion yn adlewyrchu tystiolaeth feintiol a buddiannau cymunedau.

Parhaodd y Comisiwn i wneud argymhellion i Weinidogion Cymru a fydd yn helpu i sicrhau bod cynrychiolaeth ddemocrataidd leol yn aros yn gadarn, yn deg ac yn ymatebol i newid i'r boblogaeth yn y dyfodol.

**Arolygon Cymunedol**
Roedd cefnogi prif gynghorau i arolygu trefniadau ffiniau cymunedol yn parhau i fod yn elfen bwysig o gyfrifoldebau statudol y Comisiwn.

Yn ystod y flwyddyn, ystyriodd y Comisiwn adroddiadau arolwg cymunedol a gyflwynwyd gan brif gynghorau ac arferodd ei swyddogaethau statudol, pan roedd angen. Sicrhaodd y gwaith hwn fod ffiniau cymunedol a threfniadau etholiadol yn parhau i adlewyrchu hunaniaethau lleol, patrymau datblygu a chymunedau sy'n newid.

Ochr yn ochr â gwneud penderfyniadau ffurfiol, parhaodd y Comisiwn i roi cyngor ac arweiniad i awdurdodau lleol a oedd yn cynnal arolygon cymunedol, gan hyrwyddo cysondeb, tryloywder ac arfer da ledled Cymru.

**Paratoi ar gyfer Arolygon Ffiniau'r Senedd yn y Dyfodol**
Parhaodd y Comisiwn hefyd i baratoi ar gyfer ei gyfrifoldebau yn y dyfodol yn ymwneud ag arolygon etholaethau'r Senedd.

Drwy gydol y flwyddyn, canolbwyntiodd waith ar ddatblygu'r fethodoleg, y trefniadau llywodraethu, y gallu dadansoddol a'r systemau digidol sy'n angenrheidiol i gynnal arolygon statudol o ffiniau yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys buddsoddi ymhellach mewn systemau gwybodaeth ddaearyddol a phrosesau rheoli ac adolygu data, gan sicrhau bod y Comisiwn mewn sefyllfa dda i gynnal arolygon yn y dyfodol yn effeithlon, yn dryloyw ac yn unol â'r amserlen statudol.

**Penderfyniadau ar Gydnabyddiaeth Ariannol**
Carreg filltir arwyddocaol i'r Comisiwn yn ystod 2025/26 oedd ymgymryd â'r cyfrifoldeb am benderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol aelodau prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parc cenedlaethol a chyd-bwyllgorau corfforedig.

Ar ôl i'r swyddogaethau hyn gael eu trosglwyddo o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sefydlodd y Comisiwn drefniadau llywodraethu newydd, datblygodd bolisïau a gweithdrefnau ategol, a chynhaliodd raglen gynhwysfawr o ymgysylltu â rhanddeiliaid.

Cyhoeddodd y Comisiwn ei benderfyniadau blynyddol cyntaf ar gydnabyddiaeth ariannol, gan roi eglurder a sicrwydd i'r sefydliadau yr effeithir arnynt ar yr un pryd â sicrhau bod egwyddorion tegwch, atebolrwydd, gwerth am arian a chefnogi cyfranogiad democrataidd yn aros wrth wraidd ei benderfyniadau.

Ehangodd y gwaith hwn gylch gwaith statudol y Comisiwn yn sylweddol ac fe'i cyflawnwyd yn llwyddiannus o fewn graddfeydd amser heriol ar gyfer gweithredu.

**Bwrdd Rheoli Etholiadol Cymru**
Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y Comisiwn Fwrdd Rheoli Etholiadol Cymru a darparodd wasanaeth ysgrifenyddiaeth ar ei gyfer, gan greu fforwm cenedlaethol newydd i helpu i gyflawni etholiadau datganoledig ledled Cymru.

Gan weithio'n agos gyda Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill allweddol, dechreuodd y Bwrdd gydlynu paratoadau ar gyfer etholiad Senedd 2026 a helpu i weithredu'r rhaglen fwyaf arwyddocaol o ddiwygio etholiadol yng Nghymru ers cenhedlaeth.

Canolbwyntiodd y Bwrdd ar ddatblygu dulliau cyson o gynllunio etholiad, amlygu a rheoli risgiau gweithredol cenedlaethol, cefnogi gwydnwch ar draws gwasanaethau etholiadol a hwyluso cydweithio rhwng gweinyddwyr etholiadol ledled Cymru.

Trwy ddwyn gweithwyr etholiadol proffesiynol ynghyd o bob rhan o Gymru, mae'r Bwrdd wedi cryfhau trefniadau cydlynu cenedlaethol a gosod y sylfeini ar gyfer cyflawni etholiadau datganoledig mewn ffordd gyson ac effeithiol yn y dyfodol.

**Platfform Gwybodaeth am Etholiadau**
Yn ogystal, arweiniodd y Comisiwn ar ddatblygu a chyflwyno platfform gwybodaeth am etholiadau cenedlaethol cyntaf Cymru.

Cynlluniwyd y platfform i roi gwybodaeth hygyrch, ddiduedd ac awdurdodol i bleidleiswyr am etholiadau yng Nghymru, gan gynyddu dealltwriaeth gyhoeddus o brosesau etholiadol a gwella mynediad at wybodaeth cyn polau yn y dyfodol.

Yn ystod 2025-26, gwnaed cryn gynnydd wrth ddatblygu trefniadau llywodraethu, seilwaith technegol, strategaeth gynnwys a threfniadau partneriaeth y platfform. Gweithiodd y Comisiwn yn agos gyda Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y platfform yn darparu gwybodaeth gywir, gyson a dibynadwy i bleidleiswyr ledled Cymru.

Bydd y platfform yn cyflawni rôl gynyddol bwysig wrth gefnogi cyfranogiad democrataidd wrth i ddiwygiadau etholiadol ychwanegol gael eu gweithredu.

**Cyflawni Newid Sefydliadol**
Bu'n rhaid i'r Comisiwn reoli cyfnod sylweddol o drawsnewid sefydliadol i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol yn llwyddiannus yn ystod 2025-26.
Yn sgil cyflwyno swyddogaethau statudol newydd sylweddol, bu'n ofynnol i'r Comisiwn sefydlu trefniadau llywodraethu newydd, recriwtio arbenigedd ychwanegol, datblygu polisïau a gweithdrefnau newydd, rhoi systemau digidol newydd ar waith a chryfhau capasiti sefydliadol, ar yr un pryd â pharhau i gynnal rhaglen uchelgeisiol o waith arolygu statudol.
Mae gallu'r Comisiwn i gydbwyso gweithgarwch rheolaidd â newid sefydliadol ar raddfa fawr yn adlewyrchu ymrwymiad, proffesiynoldeb a gwydnwch y Comisiynwyr a'r staff ar hyd y flwyddyn.

**Llywodraethu Corfforaethol**
Roedd trefniadau llywodraethu cryf yn parhau i fod yn sail i bob agwedd ar waith y Comisiwn.
Goruchwyliodd y Bwrdd berfformiad sefydliadol trwy fonitro amcanion strategol, perfformiad ariannol, cyflawni rhaglenni a risgiau corfforaethol yn rheolaidd. Adolygwyd ein cofrestr risg gorfforaethol drwy gydol y flwyddyn i sicrhau bod y risgiau a oedd yn dod i'r amlwg yn gysylltiedig â swyddogaethau statudol newydd, twf sefydliadol a rhaglenni mawr yn cael eu hamlygu, eu rheoli a'u lliniaru'n briodol.

Parhawyd i gryfhau trefniadau rheoli mewnol trwy adolygu prosesau llywodraethu, gweithgarwch archwilio mewnol ac adroddiadau sicrwydd rheolaidd, gan gefnogi penderfyniadau effeithiol a gwelliant parhaus ar draws y sefydliad.

**Safonau'r Gymraeg**
Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo o hyd i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gydradd â'r Saesneg wrth gyflawni ei wasanaethau.
Drwy gydol 2025-26, parhawyd i gydymffurfio â'n Safonau laith Gymraeg statudol ar draws pob agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys ymgynghoriadau cyhoeddus, cyhoeddiadau, gohebiaeth, gwasanaethau digidol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Ymgorfforwyd ystyriaeth o'r Gymraeg wrth ddatblygu polisi, cyfathrebu a chyflawni gwasanaethau, gan sicrhau bod ein gwasanaethau'n parhau i fod yn gwbl ddwyieithog ac yn hygyrch i bobl Cymru.
Gwnaethom barhau i fonitro cydymffurfedd, cynorthwyo staff i gyflawni'r Safonau a hyrwyddo cyfleoedd i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sefydliad.

**Y Comisiwn Ffiniau i Gymru**

Parhaodd y Comisiwn i ddarparu gwasanaeth Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystod 2025-26, a chafodd y Comisiwn gyllid ar gyfer y gwariant hwn yn uniongyrchol gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Cafwyd £185,000 (2024-25; £229,757) o gyllid yn 2025-26 yn ymwneud â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru, fel y datgelir yn Nodyn 4 i'r cyfrifon ar dudalen 52.

**Datblygiadau yn y Dyfodol**
Wrth i'r Comisiwn ddechrau cam nesaf ei ddatblygiad, mae mewn sefyllfa dda i gyflawni portffolio cynyddol amrywiol o gyfrifoldebau sy'n cefnogi democratiaeth ledled Cymru.

Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddwn yn parhau i gefnogi prif gynghorau sy'n cynnal arolygon cymunedol, gweithredu swyddogaethau cydnabyddiaeth ariannol y Comisiwn, datblygu'r Bwrdd Rheoli Etholiadol ymhellach, parhau i wella'r platfform gwybodaeth am etholiadau a pharatoi ar gyfer etholiad cyntaf y Senedd o dan y trefniadau etholiadol newydd.

Gan adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd yn ystod 2025-26, bydd y Comisiwn yn parhau i gryfhau ei allu, croesawu arloesedd a chydweithio â phartneriaid i sicrhau bod trefniadau democrataidd yng Nghymru yn aros yn deg, yn effeithiol, yn dryloyw ac yn ddibynadwy.

**Canlyniadau Ariannol**

Cyfanswm y gwariant net ar gyfer y flwyddyn oedd £1,989,778 (2024-25; £1,198,936) ac fe'i trosglwyddwyd i'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Cyfanswm y Cymorth Grant a gafwyd gan Lywodraeth Cymru oedd £1,529,000 (2024-25; £1,280,000) a £761,010 ar gyfer y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (2024-25; sero) ac fe'i credydwyd yn uniongyrchol i'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**Talu Credydwyr**

Polisi talu'r Comisiwn yw talu pob anfoneb cyn pen 30 niwrnod o'i derbyn. Mae'r polisi hwn yn unol â'r gofynion a bennir yn Neddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998, ac mae'n dilyn y Cod Ymarfer Talu Gwell a gyhoeddwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant. Yn 2025-26, derbyniodd y Comisiwn 444 o anfonebau a thalodd 100% o'r rhain o fewn 30 niwrnod ac

85% o fewn 10 niwrnod (2024-25, derbyniodd 329 o anfonebau a thalodd 99% o'r rhain o fewn 30 niwrnod a 94% o fewn 10 niwrnod).

**Materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Chymunedol**

Mae'r Comisiwn yn mynd ar drywydd polisïau a fydd yn ceisio lleihau effaith gweithrediadau'r Comisiwn ar yr amgylchedd yn weithredol. Er y bydd y Comisiwn yn ymgymryd â nifer o fentrau i leihau ei effaith amgylcheddol, fel sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant datblygu cynaliadwy, caiff ei gyflawni'n bennaf trwy bolisïau caffael cynaliadwy'r Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi datblygu Polisi a Strategaeth Caffael Cynaliadwy ac wedi cyflawni lefel tri y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy yn y meysydd allweddol.

Amlinellir agenda strategol Llywodraeth Cymru yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'n pwysleisio'r deilliannau y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag atynt: pobl iach sy'n byw bywydau cynhyrchiol mewn economi fwy llewyrchus a blaengar; cymunedau mwy diogel a chydlynol, gyda llai o dlodi a mwy o gydraddoldeb; amgylchedd gwydn gyda defnydd mwy cynaliadwy o'n hadnoddau naturiol a chymdeithas â gwir ymdeimlad o'i diwylliant a'i threftadaeth ei hun. Mae'r Comisiwn yn cydnabod ac yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cymunedau mwy cynhwysol a chydlynol ledled Cymru, a bydd yn ymdrechu i ystyried yr ymrwymiad hwnnw wrth wneud unrhyw argymhellion.

**Tueddiadau Gwariant Tymor Hir**

Mae cyllid a gwariant y Comisiwn yn gysylltiedig â chyflawni ei swyddogaethau statudol, gan gynnwys gwaith arolygu etholiadol a chymunedol, cyfrifoldebau rheoli etholiadol, penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol a datblygu a chynnal y platfform gwybodaeth am etholiadau yn barhaus. Disgwylir i lefel gwariant y Comisiwn yn ystod 2026-27 aros yn eithaf tebyg i'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y disgwylir i'r strwythur staffio a sefydlwyd i gefnogi cylch gwaith estynedig y Comisiwn aros yn sefydlog, gan ddarparu parhad o ran capasiti a chyflawni sefydliadol. Yn ogystal, bydd gwariant sy'n gysylltiedig â'r platfform gwybodaeth am etholiadau yn parhau wrth i'r platfform symud ymlaen gyda gwaith datblygu, mireinio a chymorth gweithredol pellach i gyflawni cyfrifoldebau statudol y Comisiwn a chefnogi digwyddiadau etholiadol yn y dyfodol.

**SHEREEN WILLIAMS**
Swyddog Cyfrifyddu
7 Hydref 2026

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026**

## ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

### Aelodau'r Comisiwn, y Prif Weithredwr ac Uwch Aelodau Staff

Aelodau'r Comisiwn yn ystod 2025-26 oedd:

| | |
|---|---|
| Beverley Smith | (Cadeirydd – mis Ebrill hyd at fis Tachwedd 2025) |
| Karen Jones | (Aelod – mis Ebrill hyd at fis Tachwedd 2025) |
| | (Cadeirydd – mis Rhagfyr 2025 hyd at fis Mawrth 2026) |
| Michael Imperato | (Dirprwy Gadeirydd) |
| Frank Cuthbert | (Aelod) |
| Dianne Bevan | (Aelod) |
| Ginger Wiegand | (Aelod) |
| Bethan Price | (Aelod) |
| Frances Duffy | (Aelod) |

Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2025-26 oedd:

| | |
|---|---|
| Andrew Blackmore | (Cadeirydd) |
| Kalwant Grewal | (Dirprwy Gadeirydd) |
| Jassa Scott | (Aelod Annibynnol) |

Yr uwch reolwyr yn ystod 2025-26 oedd:

| | |
|---|---|
| Shereen Williams | (Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu) |
| Tom Jenkins | (Pennaeth Arolygon) |
| David Burley | (Pennaeth Busnes) |
| Mark Pascoe | (Pennaeth Iechyd Democrataidd) |

Roedd penodiad Beverley Smith fel Cadeirydd am gyfnod o 3 blynedd a 10 mis o 1 Chwefror 2022 hyd at 30 Tachwedd 2025.

Roedd penodiad Karen Jones fel Aelod am gyfnod o 4 blynedd o 1 Rhagfyr 2024 hyd at 30 Tachwedd 2028. Yn dilyn ei phenodi'n Gadeirydd ym mis Rhagfyr 2025, bydd ei phenodiad fel cadeirydd yn parhau tan 30 Tachwedd 2029.

Roedd penodiad Michael Imperato fel Aelod am gyfnod o 3 blynedd o 1 Mawrth 2022 hyd at 28 Chwefror 2025. Estynnwyd cyfnod y penodiad gan Lywodraeth Cymru tan 30 Medi 2030.

Roedd penodiad Frank Cuthbert am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ebrill 2022 hyd at 31 Mawrth 2025. Estynnwyd cyfnod y penodiad gan Lywodraeth Cymru tan 30 Medi 2030.

Mae penodiad Dianne Bevan fel Aelod am gyfnod o 4 blynedd o 1 Mehefin 2022 hyd at 31 Mai 2026. Estynnwyd cyfnod y penodiad gan Lywodraeth Cymru tan 31 Mai 2027.

Mae penodiad Ginger Wiegand fel Aelod am gyfnod o 1 flynedd a 10 mis o 1 Mehefin 2023 hyd at 31 Mawrth 2025. Estynnwyd cyfnod y penodiad gan Lywodraeth Cymru tan 30 Medi 2030.

Mae penodiad Bethan Price fel Aelod am gyfnod o 4 blynedd o 15 Hydref 2024 hyd at 14 Hydref 2028.

Roedd penodiad Frances Duffy fel Aelod am gyfnod o 1 flynedd o 1 Ebrill 2025 hyd at 31 Mawrth 2026.

Mae penodiad Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef Andrew Blackmore, am gyfnod o 4 blynedd o 18 Mawrth 2025 hyd at 17 Mawrth 2029.

Mae penodiad Dirprwy Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef Kalwant Grewal, am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ionawr 2024 hyd at 31 Rhagfyr 2026.

Mae penodiad Aelod Annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, sef Jassa Scott, am gyfnod o 4 blynedd o 1 Mehefin 2025 hyd at 30 Mai 2029.

**Cofrestr Buddiannau**

Caiff cofrestr o unrhyw swyddi cyfarwyddwr a buddiannau arwyddocaol eraill ei chynnal a'i chadw yn swyddfeydd y Comisiwn ym Mharc Cathays, Caerdydd, ac mae ar gael i'r cyhoedd ei harchwilio ar gais. Fel arall, mae'r gofrestr i'w gweld ar wefan y Comisiwn yn: Cofrestr Buddiannau Comisiynwyr 2025-26 | CDFfC. Anfonir nodyn bob blwyddyn i atgoffa o'r angen i ddiweddaru'r wybodaeth hon. Mae trefniadau ar waith hefyd i aelodau a swyddogion ddatgan buddiannau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ar ddechrau pob cyfarfod o'r Comisiwn a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

**Rheoli Data Personol**

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cymryd pob cam rhesymol i warchod y data personol a geir gan ei randdeiliaid a'i gyflogeion wrth iddo gyflawni ei weithgareddau busnes. Mae rheolaethau rheoli data yn cynnwys diogelwch cyfrineiriau ar bob cronfa ddata sy'n cynnwys data personol a sensitif, cyfyngu ar fynediad at ddata, cadw data ar ffurf copïau papur dan glo mewn cypyrddau a sicrhau bod protocolau trin data ar waith.

Er bod y data personol sy'n cael ei drin gan y Comisiwn wedi'i gyfyngu'n bennaf i hwnnw sy'n ymwneud â chyflogeion y Comisiwn, mae rhwymedigaethau diogelwch gwybodaeth yn cael eu trin o ddifrif. Mae pob aelod o staff wedi dilyn hyfforddiant 'Diogelu Gwybodaeth' ac mae'r holl ffeiliau data personol yn cael eu cadw dan glo mewn cypyrddau. Mae'r Comisiwn yn gweithredu ei system TGCh ei hun ac mae'n ofynnol i aelodau staff y Comisiwn gydymffurfio'n llawn â rheolau a gweithdrefnau diogelwch data TG y Comisiwn.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau diogelwch data yn ystod 2025-26 (2024-25: dim digwyddiadau diogelwch data).

**Penodi Archwilwyr**

Caiff cyfrifon y Comisiwn eu harchwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan Adran 19 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013. Caiff ffioedd archwilio eu datgelu yn Nodyn 3 i'r cyfrifon hyn.

**Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 8 achlysur yn ystod y flwyddyn 2025-26. Cadeiriwyd y Pwyllgor gan Andrew Blackmore. Gwasanaethodd Dianne Bevan a Bethan Price fel aelodau'r Pwyllgor a gwasanaethodd Kalwant Grewal a Jassa Scott fel Dirprwy Gadeirydd ac Aelod o'r Pwyllgor, yn y drefn honno. Prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Llywodraethu ac

Archwilio yw ystyried effeithiolrwydd rheolaeth fewnol gyffredinol a systemau rheoli risg y Comisiwn a sicrhau bod prosesau a dulliau digonol ar waith i asesu a rheoli risg. Mae'n ystyried cwmpas archwilio a digonolrwydd ymatebion rheolwyr i'r argymhellion archwilio, ac yn cynghori'r Prif Weithredwr ar faterion archwilio a chydymffurfio.

**Offerynnau Ariannol**

Rhoddir manylion Offerynnau Ariannol yn Nodyn 8 i'r cyfrifon ar dudalen 53.

**Gwybodaeth**

Mae Cod Ymarfer y Comisiwn ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn mynnu bod yr holl geisiadau am wybodaeth a gwmpesir gan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn cael eu bodloni cyn pen 15 niwrnod gwaith. Yn 2025-26 cafwyd 18 cais am wybodaeth o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a darparwyd 100% ohonynt cyn pen 20 niwrnod gwaith o dderbyn y cais. Mae hyn o gymharu â 2024-25, pan gafwyd 19 cais am wybodaeth, y darparwyd 100% ohonynt cyn pen 20 niwrnod gwaith o dderbyn y cais.

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi cydymffurfio â'r gofynion dyrannu costau a thaliadau a amlinellir yng nghyfarwyddyd Trysorlys EF a Swyddfa Gwybodaeth y Sector Cyhoeddus.

**Cyfarwyddiadau gan Weinidogion**

Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, rydym yn ddarostyngedig i offerynnau anstatudol, sy'n cynnwys cyfarwyddiadau priodol. Ni roddwyd unrhyw Gyfarwyddiadau Gweinidogol i'r Comisiwn yn ystod 2025-26.

**Rhoddion a Lletygarwch**

Cedwir cofrestr Rhoddion a Lletygarwch ar gyfer aelodau a staff. Mae Polisi Rhoddion a Lletygarwch y Comisiwn yn mynnu bod aelodau a staff yn datgan cynigion o roddion sy'n werth £5 neu fwy, a lletygarwch o werth £20 neu fwy, p'un ai y cawsant eu derbyn neu eu gwrthod a ph'un a ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â busnes y Comisiwn ai peidio. Ystyrir y Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch a datganiadau ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn ystod 2025-26, cafwyd a derbyniwyd tri chynnig o roddion a lletygarwch. Roedd un yn botel 75cl o win gwerth tua £10 gan gyflenwr. Fe'i derbyniwyd gan na ystyriwyd ei bod yn gost effeithiol ei dychwelyd. Roedd y llall yn gynnig i'r Prif Weithredwr fynychu cinio Gwobrau Cyflawniad Menywod Ethnig Leiafrifol Cymru, yr amcangyfrifwyd ei fod yn werth £35. Derbyniwyd hyn oherwydd ei fod yn unol â rôl y Comisiwn i hyrwyddo Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru. Y trydydd oedd cinio gyda Phrif Swyddog Gweithredol Comisiwn Etholiadol Cymru, yr amcangyfrifwyd ei fod yn werth £40, a dderbyniwyd gan Gadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol (2024-25: dau gynnig o roddion neu letygarwch gwerth £210).

**Gweithdrefn Gwyno**

Mae gan y Comisiwn Weithdrefn Gwyno a gellir gwneud cwynion (trwy lythyr, e-bost neu dros y ffôn) trwy gysylltu â'r Comisiwn. Mae Polisi Cwyno'r Comisiwn yn cael ei adolygu bob 3 blynedd, ac fe'i hadolygwyd ddiwethaf ym mis Mehefin 2024. Gellir cael gwybodaeth am y modd yr ymdrinnir â chwynion yn nogfen Gweithdrefn Gwyno'r Comisiwn

sydd i'w gweld ar wefan y Comisiwn (www.cdffc.llyw.cymru) neu sydd ar gael o swyddfeydd y Comisiwn yn y cyfeiriad canlynol:

Y Prif Weithredwr
CDFfC
4ydd Llawr
Adeilad Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Daw gwaith y Comisiwn o fewn cylch gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'n ofynnol i'r holl aelodau staff ddilyn hyfforddiant ar ymdrin â chwynion. Ni chafodd y Comisiwn unrhyw gwynion yn ystod 2025-26 (2024-25: cafwyd 1 gŵyn).

## Safonau'r Gymraeg

Mae'r Comisiwn wedi penodi aelod staff parhaol sy'n siarad Cymraeg yn Hyrwyddwr yr Iaith Gymraeg. Mae ganddo gylch gwaith agored i weithio gyda staff y Comisiwn i gynyddu a gwella ein defnydd o'r Gymraeg. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n manylu ar sut mae wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'u gosodwyd yn Hysbysiad o Gydymffurfio Terfynol 2016 Comisiynydd y Gymraeg i'r Comisiwn. Bydd copi o adroddiad 2025-26 yn cael ei gyflenwi ar gais neu gellir ei weld ar wefan y Comisiwn.

## Adroddiadau Statudol

Mae'n ofynnol i'r Comisiwn fodloni ystod o rwymedigaethau adrodd statudol sy'n helpu i gefnogi tryloywder, atebolrwydd a sicrwydd cyhoeddus trwy sicrhau bod gwybodaeth allweddol am berfformiad, trefniadau llywodraethu, stiwardiaeth ariannol, dyletswyddau cydraddoldeb a chydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg y Comisiwn yn cael ei chyhoeddi neu ei chyflwyno i'r cyrff perthnasol o fewn graddfeydd amser gofynnol. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r prif ofynion adrodd statudol sy'n berthnasol i'r Comisiwn a'r sefyllfa yn ystod 2025/26.

| Gofyniad adrodd statudol | Derbynnydd / llwybr cyhoeddi | Amlder neu derfyn amser | Y sefyllfa yn 2025/26 |
|---|---|---|---|
| Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol y Comisiwn | Cyhoeddi gan y Comisiwn yn dilyn Archwiliad Allanol. | Yn flynyddol, erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn. | Fe'i paratowyd yn rhan o gylch adrodd statudol blynyddol y Comisiwn. |
| Penderfyniadau terfynol yr Arolwg o Ffiniau'r Senedd | Cyflwyno i Lywodraeth Cymru. | Cyflwyno adroddiad terfynol erbyn 1 Ebrill 2025. | Roedd yn ofynnol i'r penderfyniadau terfynol gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen statudol. |
| Adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. | Yn flynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Mae'r adroddiad blynyddol cyntaf yn ymdrin â 2024/25 ac fe'i cyhoeddwyd. Disgwylir i adroddiad 2025/26 gael ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2027. | Fe'i hadroddwyd yn rhan o fframwaith cydymffurfio statudol ehangach y Comisiwn. |
| Adroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg | Comisiynydd y Gymraeg. | Yn flynyddol. | Fe'i paratowyd i ddangos cydymffurfedd â Safonau'r Gymraeg. |

Roedd y Comisiwn yn ymwybodol o'i rwymedigaethau adrodd statudol yn ystod 2025/26 a chynhaliodd drefniadau i fonitro terfynau amser cyhoeddi a chyflwyno perthnasol. Ni amlygwyd unrhyw faterion o bwys ynglŷn â diffyg cydymffurfio â gofynion adrodd statudol yn ystod y flwyddyn.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo'r Comisiwn i baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a bennir gan Weinidogion Cymru. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Comisiwn a'i incwm a gwariant, Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac, yn benodol, i:

i) gadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas ar sail gyson;
ii) llunio barnau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
iii) datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, fel yr amlinellir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
iv) paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol; a
v) chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a chymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol i benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol a diogelu asedau'r Comisiwn, fel y'u hamlinellir ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Fel Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylaswn fod wedi'u cymryd i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Comisiwn yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.

**SHEREEN WILLIAMS**
Swyddog Cyfrifyddu
7 Hydref 2026

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

# 2025/26

## 1. CYFLWYNIAD

Corff statudol a noddir gan Lywodraeth Cymru yw Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") ac, fel y cyfryw, mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithredu system gadarn o lywodraethu corfforaethol. Cyfansoddwyd Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, ac mae'n gweithredu yn unol â hi. Fe'i hailenwyd yn Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau y caiff ei fusnes ei gynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, y caiff arian cyhoeddus ei ddiogelu ac y rhoddir cyfrif priodol ohono, ac y caiff ei ddefnyddio'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol. Caiff y berthynas rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru ei diffinio mewn Dogfen Fframwaith.

Nod y Datganiad Llywodraethu hwn yw darparu tystiolaeth o sut mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi rheoli'r adnoddau a ddefnyddiwyd yn ei sefydliad yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r egwyddorion a bennir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol Trysorlys EF[1].

## 2. DIBEN Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y pwyllgorau, y systemau a'r prosesau, y diwylliannau a'r gwerthoedd y mae'r Comisiwn yn gweithredu yn unol â nhw, a'r gweithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw i roi cyfrif i'r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn adrodd iddi. Mae'n galluogi'r Comisiwn i fonitro cyflawniad ei amcanion strategol ac ystyried p'un a yw'r amcanion hynny wedi arwain at gyflwyno gwasanaethau priodol, cost effeithiol.

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan arwyddocaol o'r fframwaith hwnnw ac mae wedi ei llunio i reoli risg i lefel resymol. Ni all ddileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion, ac felly gall ddarparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn unig, yn hytrach na sicrwydd llwyr. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus sydd wedi'i llunio i amlygu a blaenoriaethu'r risgiau rhag cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Comisiwn, gwerthuso'r tebygolrwydd o wireddu'r risgiau hynny a'u heffaith os cânt eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Casgliad cyffredinol y Comisiwn ar gyfer 2025/26 yw y bu'r lefel llywodraethu drwy gydol y flwyddyn yn gadarn. Mae ein Fframwaith Llywodraethu wedi esblygu yn ystod y cyfnod hwn i gydnabod cyfrifoldebau estynedig y Comisiwn a'r elfennau cyflawnadwy allweddol/gwleidyddol sensitif a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod. Dangosodd ymarfer hunanasesu blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2025-26 y cydymffurfiwyd yn gyffredinol ag arfer da. Byddwn yn parhau i adolygu ac esblygu'r trefniadau llywodraethu i sicrhau eu bod yn aros yn addas i'r diben o ystyried y blaenoriaethau gweithredol ar gyfer 2026/27.

## 3. FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

[1] http://www.hm-treasury.gov.uk/psr_governance_corporate.htm

## 3.1 Dogfen Fframwaith Llywodraeth Cymru, y Cynllun Gweithredol a'r Llythyr Cylch Gwaith

Caiff rolau unigol Llywodraeth Cymru, fel yr Adran Noddi, a'r Comisiwn eu hamlinellu mewn Dogfen Fframwaith. Mae'r Ddogfen Fframwaith yn amlinellu'r fframwaith eang y mae'r Comisiwn yn gweithredu oddi mewn iddo ac yn manylu ar y telerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn darparu Cymorth Grant i'r Comisiwn oddi tanynt. Mae hyn yn cynnwys y gofyniad i'r Comisiwn lunio Cynllun Gweithredol blynyddol.

Caiff Cynllun Gweithredol blynyddol y Comisiwn ei gytuno rhwng y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, ac mae'n amlinellu prif waith y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod a sut caiff y gwaith hwn ei ariannu. Caiff y Cynllun Gweithredol ei lunio ar ôl derbyn Llythyr Cylch Gwaith gan Weinidog Llywodraeth Cymru, sy'n amlinellu ei nodau polisi, hysbysiad o'r cymorth grant a ddyrannwyd i'r Comisiwn â rheolaeth gyllidebol gysylltiedig, ac arweiniad ar ofynion penodol sy'n ymwneud â chynllunio busnes ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

## 3.2 Swyddog Cyfrifyddu

Llywodraeth Cymru sy'n enwi Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn (y Prif Weithredwr, fel arfer). Caiff cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu eu hamlinellu yng nghyhoeddiad Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru Llywodraeth Cymru.

Enwyd Prif Weithredwr y Comisiwn, sef Shereen Williams, yn Swyddog Cyfrifyddu gan Lywodraeth Cymru ar 7 Ionawr 2019.

## 3.3 Yr Uwch Dîm Arwain

Mae'r Uwch Dîm Arwain yn cyfarfod yn fisol ac mae fel arfer yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Pennaeth Arolygon, y Pennaeth Busnes, y Pennaeth Iechyd Democrataidd a'r Uwch Reolwr Llywodraethu a Chyllid. Gelwir ar swyddogion eraill i gyfrannu eu harbenigedd proffesiynol yn ôl y gofyn.

## 3.4 Strwythur Pwyllgorau

Mae Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 yn mynnu bod y Comisiwn yn cynnwys 'aelod cadeirio' (Cadeirydd), 'dirprwy i'r aelod cadeirio' (Dirprwy Gadeirydd) ac o leiaf un ond dim mwy na saith aelod arall. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn yw tri aelod. Yn ystod 2025-26, cynhaliodd y Comisiwn gworwm o dri aelod yn bresennol ym mhob cyfarfod, fel y pennir yng Nghylch Gwaith y Comisiwn, gan felly fodloni gofynion y ddeddfwriaeth. Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn yn cyfarfod unwaith y mis, ond gall gyfarfod yn fwy neu'n llai aml, yn dibynnu ar y llif gwaith.

Er mwyn cynorthwyo'r Comisiwn mewn perthynas â materion yn ymwneud â risg, priodoldeb ariannol, rheolaeth a llywodraethu mewnol, a sicrwydd cysylltiedig, penodwyd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n cynnwys Cadeirydd annibynnol, Dirprwy Gadeirydd annibynnol, aelod Annibynnol a dau aelod o'r Comisiwn (nid Cadeirydd na Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn). Trefnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Caiff Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gynnull cyfarfodydd ychwanegol fel yr ystyria'n briodol. Gall cynrychiolydd o is-adran noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio pe bai'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol.

Mae'r Uwch Dîm Arwain yn mynychu cyfarfodydd y Comisiwn a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Gelwir ar swyddogion eraill am eu harbenigedd proffesiynol yn ôl y gofyn. Mae cynrychiolwyr yr Archwilwyr Mewnol a'r Archwilwyr Allanol yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 3.5 Y Comisiwn

Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol a rheolaeth y sefydliad. Rôl y Comisiynwyr yw gwneud penderfyniadau allweddol am bolisi corfforaethol a ffurfio'r Cynlluniau Corfforaethol a Gweithredol. Maen nhw hefyd yn hyrwyddo safonau uchel o gyllid cyhoeddus, gan gynnal egwyddorion rheoleidd-dra, priodoldeb a gwerth am arian, ac yn sicrhau bod gweithgareddau'r Comisiwn yn cael eu cynnal yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn ystod 2025/26, dechreuodd y Comisiwn ei swyddogaeth newydd yn ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol. Yn ogystal, paratôdd a chyhoeddodd ei Gynllun Gweithredol, Cynllun Corfforaethol 2030, a'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol. Adolygodd y Comisiwn y Gofrestr Risg a chafodd ddiweddariadau ar Safonau'r Gymraeg, hefyd.

Cwblhaodd y Comisiwn yr arolygon etholiadol o Gaerffili, Bro Morgannwg a Sir Gaerfyrddin ar yr un pryd â chynorthwyo nifer o Awdurdodau Lleol i gynnal arolygon cymunedol ar gyfer eu hardaloedd. Y Comisiwn yw'r awdurdod gweithredu ar gyfer yr arolygon cymunedol hyn ac, yn ystod 2025-26, gwnaeth y Comisiwn Orchmynion Gweithredu ar gyfer arolygon cymunedol a gynhaliwyd gan Rhondda Cynon Taf a Sir Gaerfyrddin.

Cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) ei ddogfennau llywodraethu yn gynnar yn 2025/26, gan ddarparu fframwaith clir ar gyfer ei weithgareddau a'i benderfyniadau yn ogystal ag egluro'r berthynas rhwng CDFfC a'r BRhE. Datblygwyd cofrestr risg strategol a blaengynllun, yn ogystal â chofrestr risg weithredol a oedd yn ymdrin â gweithgarwch yn ymwneud ag etholiad Senedd 2026. Cyhoeddodd y Bwrdd ddwy set o gyfarwyddiadau cyfreithiol rwymol i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, ym mis Hydref a mis Rhagfyr.

Canolbwyntiodd blaenraglen waith y BRhE ar gydlynu etholiad y Senedd yn 2026 a phrosiect y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP). Mae'r Bwrdd wedi blaenoriaethu cydweithio, gan ddarparu fforwm i Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol drafod risgiau, rhannu arfer da, a sicrhau dull cyson ledled Cymru. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd rhanbarthol a dau weithdy diwrnod cyfan ym mis Hydref a ganolbwyntiodd ar risgiau allweddol, gwaith trawsffiniol, a'r system bleidleisio newydd ar gyfer Senedd 2026. Gwnaeth Grŵp Cynllunio Etholiadau'r Bwrdd waith manwl ac mae'r Bwrdd wedi darparu cyfres o 'nodiadau ymarfer' i Swyddogion Canlyniadau a'u timau.

Neilltuodd y Bwrdd gryn dipyn o'i adnoddau i'r prosiect WEIP, gan fod angen gweithio'n gyflym i gyflwyno bwrwpleidlais.cymru mewn pryd ar gyfer etholiad Senedd 2026. Mae'r BRhE wedi ymdrin â risg mewn ffordd ragweithiol yn gysylltiedig â'r prosiect, gan fynnu penderfyniadau aros/symud ymlaen ar gerrig milltir allweddol y prosiect a sicrwydd ychwanegol trwy archwiliadau annibynnol. Lansiwyd y wefan, yn unol â'r amserlen, yn gynnar ym mis Mawrth.

Yn ogystal, cyhoeddodd y Comisiwn ei Adroddiad Blynyddol cyntaf ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2026/27, yn amlinellu penderfyniadau'r Comisiwn ynglŷn â'r

gydnabyddiaeth ariannol, y treuliau, a'r buddion sy'n berthnasol i aelodau etholedig a chyfetholedig ledled prif gynghorau, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parc cenedlaethol Cymru.

Cyfarfu'r Comisiwn 11 gwaith yn ystod 2025-26 i gyflawni ei gyfrifoldebau. Amlinellir presenoldeb Aelodau'r Comisiwn yn y cyfarfodydd hyn isod:

| Cyfarfodydd y Comisiwn 2025/ 26 | | |
|---|---|---|
| | Cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod cyfnod y penodiad | Cyfarfodydd a fynychwyd |
| B Smith (Cadeirydd) [1.] [4.] | 8 | 7 |
| K Jones (Aelod / Cadeirydd) [2.] [5.] | 11 | 10 |
| M Imperato (Dirprwy Gadeirydd) [3.] | 11 | 10 |
| F Cuthbert (Aelod) | 11 | 11 |
| D Bevan (Aelod) | 11 | 11 |
| G Wiegand (Aelod) [6.] | 11 | 10 |
| B Price (Aelod) | 11 | 11 |
| F Duffy (Aelod) [7.] | 11 | 8 |

[1.] 1 Ebrill 2025 hyd at 30 Tachwedd 2025
[2.] Aelod o 1 Ebrill 2025 hyd at 30 Tachwedd 2025, Cadeirydd o 1 Rhagfyr 2025 hyd at 31 Mawrth 2026
[3.] Nid oedd M Imperato wedi mynychu cyfarfod mis Mai 2025 oherwydd ymrwymiad blaenorol.
[4.] Nid oedd B Smith wedi mynychu cyfarfod mis Medi 2025 oherwydd ymrwymiad blaenorol.
[5.] Nid oedd K Jones wedi mynychu cyfarfod mis Ionawr 2026 oherwydd ymrwymiad blaenorol.
[6.] Nid oedd G Wiegand wedi mynychu cyfarfod mis Chwefror 2026 oherwydd ymrwymiad blaenorol.
[7.] Nid oedd F Duffy wedi mynychu cyfarfodydd mis Medi 2025, mis Hydref 2025 na mis Ionawr 2026 oherwydd ymrwymiad blaenorol.

### 3.6 Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Yn ystod 2025/26, craffodd y Pwyllgor ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r trefniadau rheoli risg ynghyd â'r Fframwaith Sicrwydd, rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu, a rhoddodd sicrwydd i'r Comisiwn fod y systemau, y prosesau a'r ymddygiadau sy'n dangos llywodraethu da a gweithredu effeithiol ar waith. Roedd y Pwyllgor wedi derbyn yr holl adroddiadau archwilio ac wedi monitro cynnydd argymhellion archwilio a godwyd.

Mae Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn llunio Adroddiad Blynyddol, a roddodd adborth cadarnhaol i'r Swyddog Cyfrifyddu ar gyflawnrwydd a dibynadwyedd y sicrwydd a gafwyd gan y Comisiwn ar reoli risg a'i reolaethau mewnol.

Cyhoeddir cofnodion Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Comisiwn ar wefan y Comisiwn.

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 8 gwaith yn ystod 2025/26 i gyflawni ei gyfrifoldebau, ar 17 Mehefin 2025, 28 Gorffennaf 2025, 10 Medi 2025, 17 Hydref 2025, 28 Tachwedd 2025, 21 Ionawr 2026, 18 Chwefror 2026 a 3 Mawrth 2026. Amlinellir presenoldeb Aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfodydd hyn, isod. Cynhaliwyd cyfarfodydd ychwanegol o ganlyniad i'r risg uwch a oedd yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP).

| Cyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025/ 26 | | |
|---|---|---|
| | Cyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod cyfnod y penodiad | Cyfarfodydd a fynychwyd |
| A Blackmore (Cadeirydd Annibynnol – y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) | 8 | 8 |
| K Grewal (Dirprwy Gadeirydd Annibynnol – y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)[1] | 8 | 6 |
| J Scott (Aelod Annibynnol – y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) | 8 | 8 |
| B Price (Aelod – y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)[2] | 8 | 7 |
| D Bevan (Aelod – y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)[3] | 8 | 7 |

[1] Nid oedd K Grewal wedi mynychu cyfarfodydd mis Medi a mis Hydref 2025 oherwydd ymrwymiad blaenorol.
[2] Nid oedd B Price wedi mynychu cyfarfod mis Hydref 2025 oherwydd ymrwymiad blaenorol
[3] Nid oedd D Bevan wedi mynychu cyfarfod mis Chwefror 2026 oherwydd ymrwymiad blaenorol

## 3.7 Heriau yn Ystod y Flwyddyn

Yn ystod 2025/26, gweithredodd y Comisiwn o fewn amgylchedd cyflawni arbennig o heriol wrth iddo ymgymryd ag ystod o swyddogaethau newydd ochr yn ochr â'i gyfrifoldebau sefydledig. Yr her allweddol drwy gydol y flwyddyn oedd cydbwyso cyflawni'n gyflym â sefydlu'r BRhE a chynnal trefniadau llywodraethu cryf, ar yr un pryd â datblygu perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid allweddol.

Roedd hyn yn gofyn am ymgysylltu'n helaeth ag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Swyddogion Canlyniadau a Swyddogion Cofrestru Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i gefnogi dealltwriaeth gyffredin o swyddogaethau newydd y Comisiwn a'u gweithredu'n effeithiol.

Blaenoriaeth allweddol oedd yr angen i sefydlu arbenigedd mewnol ar etholiadau fel sail i'r swyddogaethau estynedig hyn, a arweiniodd at newid i'r strwythur staff. Cynhaliodd y Comisiwn ei ymarfer caffael mwyaf o ran maint a chymhlethdod hyd yma, gan osod gofynion ychwanegol ar brosesau llywodraethu a gallu'r sefydliad o fewn graddfeydd amser tynn. Yn gyfochrog, arferodd y BRhE ei bwerau cyfarwyddo am y tro cyntaf, gan wneud hynny gyda sicrwydd cyfreithiol ac ymgynghori'n briodol i liniaru risg heriau.

Roedd y flwyddyn hefyd yn cynnwys rheoli trosglwyddo'r cyfrifoldebau am gydnabyddiaeth ariannol aelodau etholedig o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i'r Comisiwn. Roedd angen ymdrin â hyn yn ofalus i sicrhau dilyniant, eglurder a hyder ymhlith rhanddeiliaid yn ystod y broses o drosglwyddo swyddogaethau, gan gynnwys cyfathrebu rolau, prosesau, a disgwyliadau'n glir.

Wynebwyd cymhlethdod gweithredol sylweddol hefyd wrth gyflawni Rhaglen Gwella Etholiadol Cymru, lle'r oedd angen i linellau amser, pwysau ar adnoddau, cyfyngiadau o fewn y fframwaith deddfwriaethol, a'r angen am gaffael a sicrwydd annibynnol gael eu rheoli'n ofalus. Roedd y ffactorau hyn yn gofyn am drefniadau rheoli rhaglen cryf,

blaenoriaethu clir, a goruchwylio llywodraethu yn gadarn i sicrhau bod y Comisiwn yn gallu cyflawni'n effeithiol a chynnal hyder yn ei waith.

Fel y datganwyd yn yr Adroddiad Blynyddol o dan yr Adolygiad o Weithgareddau ar gyfer 2025-26 (tudalen 9), y brif her a wynebodd y Comisiwn yn ystod y flwyddyn oedd gweithredu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

## 4. RHEOLI RISG

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i amlygu ac asesu risg yn rheolaidd ac mae ganddo raglen Rheoli Risg sydd â'r nod o amlygu, rheoli a monitro pob risg, boed yn Gorfforaethol, yn Weithredol a'r risgiau hynny sy'n benodol i gynnal gwaith arolygu, gweinyddu'r cynllun pensiwn a'r system TGCh. Nod y Comisiwn yw sicrhau, wrth gyflawni ei gyfrifoldebau i Lywodraeth Cymru, y caiff y tebygolrwydd o fethu â chyflawni ei Gynllun Gweithredol a'i Amcanion Strategol ei leihau drwy ragfynegi a rheoli risgiau hysbys. Bydd y Prif Weithredwr ac uwch reolwyr yn sefydlu ac yn cyflwyno'r Rhaglen Rheoli Risg gan sicrhau y caiff yr holl risgiau eu cydnabod, eu hasesu, eu hadolygu a'u gwella'n rheolaidd. Caiff y Risgiau Corfforaethol eu cyflwyno i aelodau ar ffurf Cofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol ym mhob cyfarfod i roi sicrwydd i broses Rheoli Risg y Comisiwn.

Mae trefniadau rheoli risg y Comisiwn yn cyd-fynd â'r egwyddorion yn Llyfr Oren Trysorlys EF (Rheoli Risg – Egwyddorion a Chysyniadau), sef:

- Bydd rheoli risg yn rhan hanfodol o lywodraethu ac arwain, ac yn allweddol i'r ffordd y mae'r sefydliad yn cael ei gyfarwyddo a'i reoli ar bob lefel.
- Bydd rheoli risg yn rhan annatod o'r holl weithgareddau sefydliadol i gefnogi gwneud penderfyniadau wrth gyflawni amcanion.
- Bydd rheoli risg yn gydweithredol ac yn cael ei lywio gan y wybodaeth orau sydd ar gael.
- Bydd prosesau rheoli risg yn cael eu strwythuro i gynnwys:
    a. amlygu ac asesu risgiau i bennu a blaenoriaethu sut y dylai'r risgiau gael eu rheoli;
    b. dethol, dylunio a gweithredu opsiynau trin risgiau sy'n helpu i gyflawni'r canlyniadau a fwriedir a rheoli risgiau i lefel dderbyniol;
    c. dylunio a gweithredu proses integredig, graff a gwybodus i fonitro risgiau; ac
    ch. adrodd am risgiau'n amserol, yn gywir ac yn ddefnyddiol i wella ansawdd y penderfyniadau a wneir a chynorthwyo rheolwyr a chyrff goruchwylio i gyflawni eu cyfrifoldebau.
- Bydd rheoli risg yn cael ei wella'n barhaus trwy ddysgu a phrofiad.

Mae'r Comisiwn yn cydymffurfio â'r egwyddorion hyn trwy ystyried ei barodrwydd i dderbyn risg a monitro risgiau presennol a amlygwyd, ynghyd ag ystyried ei amcanion corfforaethol a'i gynllun gweithredol ac amserlenni a therfynau amser ei raglen waith er mwyn amlygu risgiau ychwanegol sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r Comisiwn yn adolygu ei gofrestrau risg Corfforaethol a Rhaglen Waith Arolygon ym mhob cyfarfod ac yn diweddaru'r risgiau a'r camau lliniarol fel y bo'r angen. Mae Uwch Dîm Arwain y Comisiwn yn adolygu cofrestrau risg Gweithredol, TGCh a Phensiynau'r Comisiwn. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn derbyn

adroddiadau ar weithgarwch rheoli risg a pholisi rheoli risg y Comisiwn ym mhob cyfarfod.

Yn ystod 2025/26, roedd y prif risgiau a amlygwyd ac a reolwyd gan y Comisiwn fel a ganlyn:

| **Risg a Amlygwyd** |
|---|
| Nid yw'r Comisiwn wedi llwyr ystyried a chynllunio ar gyfer y posibilrwydd o gamddeall neu wrthod ei allbwn gwaith gwleidyddol sensitif ac amlwg iawn (fel ei argymhellion a'i benderfyniadau) gan y rhai yr effeithir arnynt. |
| Yng nghyd-destun sefydliad bach iawn sydd ag elfennau cyflawnadwy tymor byr sy'n allweddol i'w genhadaeth, mae perygl bod un neu ddau swyddog allweddol yn gyfrifol am arbenigedd gweithredol a pherthnasoedd busnes allweddol. |
| Mae perygl na fydd y Comisiwn yn meddu ar y capasiti na'r gallu i ymateb yn effeithiol i alwadau am adnoddau ychwanegol annisgwyl (ariannol, gweithredol a phobl) i ganiatáu i bob un o'r swyddogaethau gyflawni'n effeithlon, yn effeithiol ac yn brydlon. |
| Mae perygl na fydd y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn weithredol yn unol â disgwyliadau rheoleiddiol a rhanddeiliaid, gan arwain at beidio â chyflawni gwell 'cyfleustra' (fel y'i cynrychiolir gan argaeledd storfa ganolog o ystod o wybodaeth etholiadol). |
| O ystyried rôl allweddol a gwleidyddol sensitif y Comisiwn o ran y broses ddemocrataidd, mae perygl y gallai gweithredwyr maleisus dargedu ein systemau TG gan arwain at darfu o bwys a allai danseilio hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. |

Mae'r Comisiwn yn lleihau risg camddeall neu wrthod gwaith gwleidyddol sensitif trwy weithredu cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer allbynnau a rhanddeiliaid allweddol. Yn ogystal â darparu crynodebau Cymraeg a Saesneg clir ochr yn ochr â phenderfyniadau ffurfiol, cynnal tryloywder trwy gyhoeddi methodoleg, cofnodion a chanllawiau. Bydd y cynllun cyfathrebu'n cael ei werthuso ynghyd â'r llythyr cylch gwaith newydd i gadarnhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol.

Mae'r risg bod y Comisiwn yn dibynnu ar un neu ddau swyddog allweddol yn unig ar gyfer arbenigedd gweithredol a pherthnasoedd busnes allweddol i gyflawni elfennau tymor byr yn cael ei rheoli trwy gynnal perthynas waith gref â rhanddeiliaid allweddol, neilltuo dirprwyon pan na fydd aelodau staff allweddol yn gallu mynychu cyfarfodydd, a sicrhau hyfforddiant i ddatblygu'r holl staff. Bydd gweithredu cynllunio senario i fynd i'r afael â'r posibilrwydd o golli arbenigedd mewnol yn galluogi'r sefydliad i amlygu a mabwysiadu mesurau angenrheidiol, gan felly leihau unrhyw effaith.

Mae'r risg sy'n ymwneud â chapasiti neu allu'r Comisiwn i ymateb yn effeithiol i adnoddau ychwanegol annisgwyl yn cael ei rheoli ar hyn o bryd trwy ymgysylltu'n barhaus â'r Is-adran Noddi ynglŷn â gofynion adnoddau i ddefnyddio secondiadau a benthyciadau tymor byr i fynd i'r afael â bylchau, pan fydd angen. Mae uwch arweinwyr yn adolygu'r swyddogaethau gweithredol yn fisol i sicrhau goruchwyliaeth effeithiol.

Er mwyn lleihau'r risg nad yw'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig yn weithredol yn unol â disgwyliadau rheoleiddiol a rhanddeiliaid, mae gwefan wrth gefn wedi cael ei pharatoi ac mae CDFfC yn sicrhau bod digon o staff i'w lleoli. Mae trefniadau ar waith hefyd i oruchwylio cynnal y platfform. I wella ein rheolaethau ymhellach, bydd unrhyw elfennau cyflawnadwy sy'n weddill yn cael eu holrhain ar gyfer etholiad y Senedd a bydd cynllun prosiect yn cael ei ddatblygu ar gyfer y cam nesaf i sicrhau gwelliannau prydlon ar gyfer yr etholiadau Cyffredinol Lleol. Mae cyfathrebu'n barhaus â Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y platfform yn aros yn gyfredol o ran diweddariadau rheoleiddiol.

Mae nifer o reolaethau ar waith i reoli'r risg i systemau TG y Comisiwn sy'n deillio o weithredwyr maleisus. Mae cynllun wrth gefn lefel uchel ar waith os bydd y Cytundeb

Lefel Gwasanaeth yn cael ei derfynu, gyda chontractwyr allanol ar gyfer unrhyw systemau y tu hwnt i ofynion busnes arferol. Ymgysylltir yn barhaus â phartneriaid cymorth TG i gwmpasu a phrisio cymorth ychwanegol, fel y bo angen. Mae gan y Comisiwn achrediad Cyber Essentials Plus a lefel 1 IASME a bydd yn gweithio tuag at achrediad lefel 2 IASME yn 2026/27. Mae systemau ar gyfer y cyhoedd a gynhelir yn allanol wedi bod yn destun profion hacio a gwiriadau diogelwch, ac mae platfformau mewnol ac allanol yn cael eu cynnal ar wahân. Dylai hyfforddiant seiberddiogelwch rheolaidd ganolbwyntio ar wneud penderfyniadau, cyfathrebu, ac uwchgyfeirio yn ystod digwyddiadau byw. Mae profi parodrwydd sefydliadol trwy ymarfer desg sy'n cyd-fynd â pharhad busnes yn cryfhau'r rheolaethau hyn ymhellach.

## 5. ARCHWILIO MEWNOL

Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol a'r trefniadau llywodraethu ei lywio gan waith yr Archwilwyr Mewnol a'u hadroddiad i'r Comisiwn. Gwneir y gwaith hwn gan archwilwyr penodedig sy'n strwythuro eu gwaith ar sail rhaglen archwilio flynyddol. Mae cylch gorchwyl yr archwilwyr mewnol yn mynnu y caiff gwaith ei gyflawni'n unol â'r Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.

Fel rhan o gylch busnes corfforaethol y Comisiwn, mae Archwilwyr Mewnol y Comisiwn, sef MIAA Ltd., yn llunio rhaglen archwilio mewnol a gymeradwyir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r broses archwilio yn defnyddio canllawiau archwilio safonol Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) ac arfer gorau arall, gyda'r nod o amlygu gwendidau posibl mewn rheolaethau. Yna, caiff pob un o'r gwendidau posibl hyn eu hasesu ar y cyd â'r archwilwyr i ystyried y risg debygol a maint yr effaith, a'r rheolaethau amgen a'r gwelliannau posibl o fewn adnoddau'r Comisiwn.

Lluniwyd y Farn Archwilio Mewnol ar Reolaeth Fewnol 2025/26 gan MIAA Ltd. gyda'r nod o ategu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drwy roi barn am lefel y rheolaeth fewnol ar sail y gwaith mewnol a amlinellir isod. Mae Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2025/26 yn datgan:

'Rhoddodd MIAA Sicrwydd Sylweddol bod system dda o reolaeth fewnol a gynlluniwyd i fodloni amcanion y sefydliad, a bod rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson at ei gilydd'.

### Adroddiad Archwilio Canol Blwyddyn 2025/26

| Maes Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi | Gwendid a Amlygwyd | | | | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Critigol | Uchel | Canolig | Isel | |
| Trafodiadau Cyllid Allweddol | Hydref 2025 | - | - | 2 | 2 | Sylweddol |
| Rheoli Risg | Hydref 2025 | - | - | 2 | 3 | Sylweddol |

### Adroddiad Archwilio Diwedd Blwyddyn 2025/26

| Maes Archwilio | Dyddiad Cyhoeddi | Gwendid a Amlygwyd | Lefel Sicrwydd |
|---|---|---|---|

| | | Critigol | Uchel | Canolig | Isel | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraethu Corfforaethol | Mawrth 2026 | - | - | 2 | 1 | Sylweddol |
| Arolwg y Senedd | Chwefror 2026 | - | - | - | 1 | Uchel |

Rhoddodd yr archwiliad canol blwyddyn sgôr sicrwydd Sylweddol i Drafodiadau Cyllid Allweddol a Rheoli Risg, a gwnaed naw argymhelliad archwilio.

Rhoddodd yr archwiliad diwedd blwyddyn sgôr sicrwydd Sylweddol i Lywodraethu Corfforaethol a sicrwydd Uchel i Arolwg y Senedd, a gwnaed pedwar argymhelliad archwilio.

These findings provide assurance that the DBCC's arrangements are reducing its exposure to risk. The Committee noted the thoroughness of the audit work, practicality of recommendations and the open and positive response of DBCC management.

Rhoddodd yr adroddiad archwilio Dilynol ar gyfer 2025/26 asesiad cadarnhaol o gynnydd wrth weithredu'r argymhellion, gyda'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau a'r argymhellion a oedd yn weddill wedi'u gweithredu'n rhannol.

## 6. ARCHWILIO ALLANOL

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw archwilydd statudol y Comisiwn sy'n archwilio cyfrifon ariannol blynyddol y Comisiwn yn unol ag arfer sefydledig.

Adolygwyd y casgliadau Archwilio ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Hydref 2026. Rhoddwyd barn ddiamod ar Gyfrifon 2025/26 a gwnaed dau argymhelliad archwilio a dderbyniwyd gan y Comisiwn, sef:

- Dylid adolygu'r prosesau cynhyrchu cyfrifon a'r trefniadau sicrhau ansawdd i wella ansawdd y datganiadau ariannol drafft.

- Dylid diweddaru'r gofrestr asedau sefydlog i gynnwys gwelliannu lesddaliad.

## 7. EFFEITHIOLRWYDD Y BWRDD

### 7.1 Ymsefydlu, Datblygu, Hyfforddiant ac Arfarnu Perfformiad

Mae Comisiynwyr newydd ac aelodau newydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cael sesiwn ymsefydlu sy'n ymdrin â sut mae gwaith arolygu'r Comisiwn yn cael ei wneud, y berthynas rhwng CDFfC a'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru a sut mae'r ysgrifenyddiaeth ar y cyd ar gyfer y ddau gorff yn gweithredu a threfniadau ariannol y Comisiwn. Fel rhan o raglen ymsefydlu Comisiynwyr ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, darperir hyfforddiant mewn perthynas â'r broses o gynnal arolwg etholiadol. Hefyd, darperir pecyn ymsefydlu ar gyfer aelodau annibynnol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nad ydynt yn aelodau o'r Comisiwn.

Anogir Comisiynwyr i feithrin cysylltiadau ag aelodau cyrff eraill sydd â buddiannau sy'n gyffredin â rhai'r Comisiwn. Mae trefniant sefydledig o gyfarfodydd blynyddol rhwng Comisiynau Ffiniau amrywiol y Deyrnas Unedig, a cheir cyfarfodydd cyfnodol rhwng Aelodau'r Comisiwn a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a chyrff rhanddeiliaid eraill hefyd. Bydd y Comisiwn hefyd yn ystyried darparu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer meysydd arbenigedd penodol y nodwyd y byddant o fudd i'r Comisiwn.

Caiff perfformiad Cadeirydd y Comisiwn ei arfarnu'n flynyddol gan Ddirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru. Caiff perfformiad Aelodau'r Comisiwn ei arfarnu'n flynyddol gan Gadeirydd y Comisiwn. Ar gyfer 2025-26, daeth y Cadeirydd i'r casgliad fod perfformiad holl Aelodau'r Comisiwn yn gwbl foddhaol.

## 7.2 Gwybodaeth am y Bwrdd

- Mabwysiadwyd Cylch Gorchwyl ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn;
- Mabwysiadwyd Cynllun Gwaith ar gyfer cyfarfodydd y Comisiwn;
- Mabwysiadwyd fformat safonol ar gyfer adroddiadau. Mae hyn yn sicrhau cysondeb ac yn mynnu bod materion fel risgiau a goblygiadau cyfreithiol yn cael eu hystyried;
- Anogir awduron adroddiadau i ddefnyddio ffynonellau gwybodaeth hygyrch a dibynadwy, fel Llywodraeth Cymru, prif gynghorau, Comisiynau Ffiniau eraill, adrannau'r llywodraeth ac ati;
- Mabwysiadwyd fformat safonol ar gyfer agendâu a chofnodion cyfarfodydd. Mae eitemau sefydlog ar agendâu yn cynnwys datganiadau buddiannau, materion sy'n codi, rheoli risg, adroddiad ar y gyllideb a chalendr digwyddiadau. Caiff cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn eu cyhoeddi ac maent ar gael ar wefan y Comisiwn;
- Mae aelodau'r Comisiwn wedi parhau i ddefnyddio gliniaduron ar gyfer storio a gweld papurau cyfarfodydd a dogfennau eraill sy'n berthnasol i'w dyletswyddau, ac mae hyn wedi parhau i leihau costau deunydd ysgrifennu sy'n gysylltiedig ag argraffu a chopïo papurau cyfarfodydd.

## 7.3 Gwerthuso Perfformiad y Bwrdd

Gohiriwyd yr asesiad o berfformiad y Bwrdd a drefnwyd ar gyfer 2025/26 i gydnabod cyfnod o newid mawr, gan gynnwys penodi Cadeirydd newydd, sefydlu pwyllgorau newydd a recriwtio aelodau ychwanegol. Bwriadwyd i'r dull hwn ganiatáu i'r trefniadau llywodraethu diwygiedig weithredu am flwyddyn gyfan a galluogi'r Bwrdd i ymsefydlu'r broses o gyflawni swyddogaethau estynedig y Comisiwn, gan felly gefnogi proses myfyrio ac adborth fwy cadarn ac wedi'i seilio ar dystiolaeth. Yn gynnar yn 2026/27, bydd holiadur effeithiolrwydd y Bwrdd yn cael ei adolygu a'i ailwampio i sicrhau ei fod yn addas i'r diben o hyd yng ngoleuni cylch gwaith estynedig y Comisiwn, ac yna bydd yr asesiad o berfformiad y Bwrdd yn cael ei gwblhau.

Cynhaliodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ei adolygiad hunanasesu blynyddol o'i effeithiolrwydd trwy holiadur diwygiedig a lenwyd gan yr aelodau yn ystod mis Mawrth 2026. At ei gilydd, roedd canfyddiadau'r gwerthusiadau hyn yn gadarnhaol yn ystod 2025/26, gan ddod i'r casgliad y bodlonwyd mwyafrif helaeth y dangosyddion effeithiolrwydd a chydymffurfio ag arfer da. Mae meysydd a amlygwyd i'w gwella yn cael eu nodi mewn cynlluniau gweithredu ac yn derbyn sylw yn ystod y flwyddyn ganlynol. O ran y gwerthusiad o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, nid oedd unrhyw bwyntiau gweithredu o'r flwyddyn flaenorol i fynd i'r afael â nhw. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei broses hunanasesu effeithiolrwydd

perfformiad gyda chymorth yr archwilwyr mewnol (MIAA ltd), a disgwylir i'r broses hon gael ei chwblhau yn ystod 2026/27.

## 8. COD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae trefniadau'r Comisiwn yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Corfforaethol ym mhob ffordd berthnasol.

## 9. ANSAWDD ADRODDIADAU'R BWRDD

Ar ôl safoni fformat adroddiadau a system o wirio'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiadau, mae'r Comisiwn bellach o'r farn bod ansawdd y data'n dderbyniol a bydd yn ymdrechu i wneud gwelliannau pellach i adroddiadau safonedig ar arolygon i'r Bwrdd.

## 10. CYFARFODYDD Â'R ADRAN NODDI

Mae Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ag Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru, a cheir cysylltiad cyson rhwng aelodau'r Ysgrifenyddiaeth ac aelodau'r Is-adran Noddi ar faterion gweithredol. Yn ogystal, mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn yn cynnal cyfarfodydd cyswllt â chynrychiolwyr Is-adran Noddi'r Comisiwn yn Llywodraeth Cymru i drafod cynnydd ar waith arolygu, materion llywodraethu corfforaethol ac unrhyw faterion eraill sy'n codi yn ymwneud â gweithrediad y Comisiwn.

## 11. RHEOLI PERFFORMIAD

Mae system rheoli perfformiad ar waith i sicrhau bod aelodau staff yn deall beth maen nhw'n ei wneud a pham, a sut mae eu gwaith yn cysylltu â'r hyn y mae'r Comisiwn yn ceisio ei gyflawni. Gan ddefnyddio'r feddalwedd Clear Review, mae gofyn i bob rheolwr osod amcanion i'w staff sy'n cael eu hadolygu drwy gydol y flwyddyn a'u diweddaru fel y bo'r angen. Mae hyn yn cynnwys cynllun datblygu a hyfforddi llawn sy'n gysylltiedig â gyrfa a swydd i gynorthwyo datblygiad staff.

Caiff perfformiad aelodau'r Comisiwn ei asesu gan Gadeirydd y Comisiwn yn flynyddol, a chaiff perfformiad y Comisiwn o ran cyflawni ei ddyletswyddau ei fonitro yng nghyfarfodydd y Comisiwn.

## 12. DIOGELWCH DATA TGCH

Mae'r Comisiwn yn cael adroddiadau Diogelwch TGCh gan ei swyddogion cymorth TGCh a ddarperir gan Gymwysterau Cymru. Ystyrir yr adroddiadau hyn ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn ystod y cyfnod adrodd, cynhaliodd y Comisiwn ei Archwiliad Seiberddiogelwch blynyddol. Yn ogystal, cwblhaodd y Comisiwn Lefel 1 IASME yn llwyddiannus ac mae'n gweithio tuag at gyflawni Lefel 2 IASME yn ystod 2026-27.

## 13. CHWYTHU'R CHWIBAN A THWYLL

Mae'r Comisiwn yn gweithredu Polisïau Chwythu'r Chwiban a Thwyll sydd ar gael i staff drwy fewnrwyd y Comisiwn ac i Aelodau'r Comisiwn drwy'r pecynnau ymsefydlu sy'n cael eu dosbarthu iddynt ar ôl iddynt gael eu penodi. Caiff trefniadau Chwythu'r Chwiban y Comisiwn, ynghyd ag adroddiad ar unrhyw achosion o chwythu'r chwiban a thwyll, eu

hystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Nid oedd unrhyw achosion o chwythu'r chwiban neu dwyll drwgdybiedig yn ystod 2025/26 (2024/25 – dim digwyddiadau chwythu'r chwiban).

LLOFNOD _____ DYDDIAD 7 Hydref 2026
Karen Jones
Cadeirydd

LLOFNOD _____ DYDDIAD 7 Hydref 2026
Shereen Williams
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu

**Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff**

**Contractau Gwasanaeth**

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r Gwasanaeth Sifil gael eu gwneud yn ôl teilyngdod ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn manylu ar yr amgylchiadau pan ellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall isod, mae gan y swyddogion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn swyddi penagored. Byddai terfynu'n gynnar, heblaw ar gyfer camymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn, fel y pennir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil i'w gweld yn www.civilservicecommission.org.uk

**Polisi Cydnabyddiaeth Ariannol**

Caiff y pwerau i wneud taliadau i Aelodau'r Comisiwn eu hamlinellu yn Adran 2 Darpariaeth 4 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc 2013. Trosglwyddwyd y swyddogaeth hon i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Offeryn Statudol (OS) 1999 Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau Rhif 672. Caiff cynnydd i gydnabyddiaeth ariannol Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ei awdurdodi gan Brif Weinidog Cymru.

Mae'r Comisiwn hefyd yn gyfrifol am wneud taliadau i aelodau'r Comisiwn Ffiniau i Gymru (CFfG) ar gyfraddau dyddiol a bennir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ac a gymeradwyir gan Drysorlys EF. Telir am y taliadau hyn drwy'r cyllid a ddarperir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a ddisgrifir ar dudalen 12 ac a ddatgelir yn y tabl costau staff ar dudalen 37.

Caiff codiadau cyflog blynyddol eu cymhwyso yn unol â'r rhai a gytunir ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, ac nid oes unrhyw daliadau bonws perfformiad yn berthnasol.

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad hwn yn destun archwiliad ac eithrio'r ffigurau yn ymwneud â chyfansoddiad staff ac absenoldeb oherwydd salwch.

**Cydnabyddiaeth ariannol (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn**

Mae'r adrannau canlynol yn darparu manylion am gydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn rheolwyr uchaf ac aelodau bwrdd y Comisiwn.

**Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau'r Comisiwn (yn destun archwiliad)**

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| Enw | Ffioedd £'000 | Ffioedd £'000 |
| | | |
| Beverley Smith (Cadeirydd CDFfC) | 5 - 10 | 5 - 10 |
| Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd CDFfC) | 5 - 10 | 5 - 10 |
| Frank Cuthbert (Aelod CDFfC) | 5 - 10 | 5 - 10 |
| Dianne Bevan (Aelod CDFfC) | 5 - 10 | 0 - 5 |
| Ginger Weigand (Aelod CDFfC) | 0 - 5 | 0 - 5 |
| Bethan Price (Aelod CDFfC) | 10-15 | 0 - 5 |
| Karen Jones (Aelod / Cadeirydd CDFfC) | 10 - 15 | 0 - 5 |
| Frances Duffy (Aelod CDFfC) | 5 - 10 | - |
| Andrew Blackmore (Cadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Archwilio – CDFfC) | 5 - 10 | 0 - 5 |
| Kalwant Grewal (Dirprwy Gadeirydd Annibynnol y Pwyllgor Archwilio – CDFfC) | 0 - 5 | 0 - 5 |

| | | |
|---|---|---|
| Jassa Scott (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio – CDFfC) | 0 - 5 | - |
| Huw V Thomas (Aelod – CFfG) | 0 - 5 | 0 - 5 |
| Sam Hartley (Aelod – CFfG) | 0 - 5 | 0 - 5 |

Roedd cydnabyddiaeth ariannol aelodau'r Comisiwn yn ymwneud yn gyfan gwbl â ffioedd ar gyfer gwasanaethau a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn. Nid yw cyfraniadau pensiwn yn daladwy.

Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd ex-officio y Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru, sy'n llywyddu'r cyfarfodydd, yn Farnwr yr Uchel Lys: Meistres Ustus Jefford DBE. Mae swydd Dirprwy Gadeirydd y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn swydd ddi-dâl, a thelir treuliau yn unig.

**Cyflog a Hawliau Pensiwn Uwch Reolwyr (yn destun archwiliad)**

| Cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol unigol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Swyddog | Cyflog (£'000) [1] | | Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) [2 3] | | Cyfanswm (£'000) | |
| | 2025-26 | 2024-25 | 2025-26 | 2024-25 | 2025-26 | 2024-25 |
| Mrs S Williams (Prif Weithredwr) | 85-90 | 80-85 | 34,000 | 36,000[5] | 120-125 | 115-120 |
| Mr D T Jenkins (Pennaeth Polisi a Rhaglenni) | 70-75 | 70-75 | 29,000 | 28,000 | 100-105 | 95-100 |
| Mr D Burley (Pennaeth Busnes) | 70-75 | 65-70 | 72,000 | 65,000 | 145-150 | 130-135 |
| Mr M Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd) [4] | 60-65 | 10-15 | 24,000 | 4,000 | 80-85 | 10-15 |

[1] Ni wnaed unrhyw daliadau bonws na Buddion mewn Nwyddau.

[2] Caiff gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol i'r pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd gwirioneddol i unrhyw gyfandaliad) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd o ganlyniad i chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

[3] Mae'r buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar ei gynnwys yn y cynllun etifeddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, neu'n gymwys i fod yn aelodau ohono, ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail i'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r safbwynt cyfreithiol, sef bod aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r cynllun etifeddol perthnasol am gyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl wrth ymddeol i benderfynu derbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun Alpha yn lle hynny o 1 Ebrill 2015 tan 31 Mawrth 2022.

[4] Ers 14 Ionawr 2025. Cyflog £55 – 60k cyfwerth ag amser llawn / diwedd y flwyddyn gyllidol.

[5] Mae buddion pensiwn y flwyddyn flaenorol a ddatgelwyd ar gyfer y Prif Weithredwr wedi cael eu diwygio fel aelod sydd wedi trosglwyddo o (classic/classic plus/premium) i gynllun alpha. Mae'r buddion wedi'u seilio ar gyflog pensiynadwy a hyd gwasanaeth, felly fe allent gynyddu o un flwyddyn i'r llall trwy gyfrwng unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn.

Cyfrifir gwerth buddion pensiwn gan MyCSP, sef y sefydliad sy'n gyfrifol am weinyddu Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar ran y Gwasanaeth Sifil. Ni all y Comisiwn ddylanwadu ar y cyfrifiad na'r swm a adroddir. Nid yw'n swm a dalwyd i swyddog gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddion pensiwn. Gall sawl ffactor ddylanwadu ar y ffigurau hyn, e.e. newidiadau i gyflog swyddog, p'un a yw'n dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i gyflog a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

**Nifer yr Uwch Reolwyr**

Cyflogodd y Comisiwn 4 uwch reolwr yn ystod 2025-26 (2024-25: 4 uwch reolwr), sef Prif Weithredwr, Pennaeth Arolygon, Pennaeth Busnes a Phennaeth Iechyd Democrataidd. Ystyrir bod Prif Weithredwr y Comisiwn yn gyfwerth â Gradd 6 Llywodraeth Cymru, ac ystyrir bod Pennaeth Polisi a Rhaglenni, Pennaeth Busnes a Phennaeth Iechyd Democrataidd y Comisiwn yn gyfwerth â Gradd 7 Llywodraeth Cymru.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog crynswth a goramser. Derbyniodd un aelod o staff lwfans Recriwtio a Chadw 5% a derbyniodd un aelod o staff lwfans Cyfrifyddiaeth 5% yn ystod 2025-26. Ni wnaed unrhyw daliadau eraill mewn perthynas â thâl perfformiad neu daliadau bonws. Mae'r adroddiad hwn wedi'i seilio ar daliadau cronedig a wnaed gan y Comisiwn, ac fe'u cofnodwyd felly yn y cyfrifon hyn.

## Datgeliad Cyflog Teg

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y cyfarwyddwr sydd ar y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth ariannol wedi'i bandio y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf yn y flwyddyn ariannol 2025/26 oedd £85-£90,000 (2024/25 = £80-85,000). Roedd hyn 1.84 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol gweithlu'r Comisiwn, sef £47,648 (2024-25: 1.84 gwaith yn fwy na chydnabyddiaeth ariannol ganolrifol gweithlu'r Comisiwn, sef £44,852)

| **Cyfanswm Tâl a Buddion** | | |
|---|---|---|
| | **2025/26** | **2024/25** |
| Tâl y 25ain canradd | 36,115 | 33,748 |
| Cymhareb cyflog y 25ain canradd | 2.42 | 2.44 |
| Tâl y 50fed canradd | 47,648 | 44,852 |
| Cymhareb cyflog y 50fed canradd | 1.84 | 1.84 |
| Tâl y 75ain canradd | 58,286 | 50,009 |
| Cymhareb cyflog y 75ain canradd | 1.50 | 1.65 |

| **Elfen Gyflog Cyfanswm Tâl a Buddion** | | |
|---|---|---|
| | **2025/26** | **2024/25** |
| Tâl y 25ain canradd | 36,115 | 33,748 |
| Cymhareb cyflog y 25ain canradd | 2.42 | 2.44 |
| Tâl y 50fed canradd | 47,648 | 43,758 |
| Cymhareb cyflog y 50fed canradd | 1.84 | 1.89 |
| Tâl y 75ain canradd | 55,473 | 49,210 |
| Cymhareb cyflog y 75ain canradd | 1.58 | 1.68 |

Yn 2025/26, ni chafodd unrhyw gyflogai gydnabyddiaeth ariannol uwch na'r cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf (2024/25 = dim cyflogai).

Roedd cydnabyddiaeth ariannol yn amrywio o £29,282 i £87,500 (2024/25: £29,657 i £82,500). Mae'r cyfanswm cydnabyddiaeth ariannol yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol yn gysylltiedig â pherfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, taliadau dros dro, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf oedd 3.7% (2024/25: 3.1%). Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol o ran cyflogeion yn gyffredinol oedd 5.1% (2024/25: 14.3%).

## Sicrwydd Treth ar gyfer Cyflogeion nad ydynt ar y Gyflogres

Caiff yr holl staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn ac aelodau'r bwrdd eu talu drwy system gyflogres y Comisiwn ac maent yn ddarostyngedig i'r cyfraniadau treth ac Yswiriant

Gwladol priodol. Mae'r holl staff sydd ar secondiad i'r Comisiwn o adrannau eraill y llywodraeth yn aros ar system gyflogres eu rhiant-adrannau. Yn ystod 2025-26, gwnaeth y Comisiwn daliadau oddi ar y gyflogres i ymgynghorydd a gyflogwyd i gynorthwyo'r Comisiwn i ddatblygu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

**Penodiadau gweithwyr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2026, a oedd yn ennill £245 y dydd neu fwy**

| | |
|---|---|
| Nifer (rhif) y penodiadau presennol ar 31 Mawrth 2026 | 1 |
| | |
| Y nifer ohonynt a oedd yn bodoli: | |
| | |
| Am lai na blwyddyn | - |
| Rhwng 1 a 2 flynedd | 1 |
| Rhwng 2 a 3 blynedd | - |
| Rhwng 3 a 4 blynedd | - |
| Am 4 blynedd neu fwy | - |

**Yr holl weithwyr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a benodwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, a oedd yn ennill £245 y dydd neu fwy**

| | |
|---|---|
| Nifer (rhif) y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a benodwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 | 1 |
| | |
| Y nifer ohonynt a oedd: | |
| | |
| Heb fod yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y penderfynwyd bod IR35 yn berthnasol iddynt | - |
| Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y penderfynwyd nad oedd IR35 yn berthnasol iddynt | 1 |
| Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfedd neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | - |

**Buddion Pensiwn (yn destun archwiliad)**

| Enw | Pensiwn cronedig wrth gyrraedd oed pensiwn ar 31/03/26 a'r cyfandaliad cysylltiedig | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig wrth gyrraedd oed pensiwn | Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) ar 31/3/26 | CETV ar 31/3/25 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV | Cyfraniadau'r cyflogwr at gyfrifon pensiwn partneriaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | |
| Mrs S Williams Prif Weithredwr | 20 - 25 | 0 – 2.5 | 295 | 260 | 18 | - |
| Mr D T Jenkins Pennaeth Polisi a Rhaglenni | 15 - 20 | 0 – 2.5 | 208 | 183 | 14 | - |
| Mr D Burley Pennaeth Busnes | 30 – 35 a chyfandaliad o 80 - 85 | 2.5 – 5 a chyfandaliad o 5 -7.5 | 797 | 711 | 70 | - |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Mr M Pascoe [2]<br>Pennaeth Iechyd Democrataidd | 10 - 15 | 0 - 2.5 | 171 | 151 | 12 | - |

. Mae'r buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar eu cynnwys yn y cynllun etifeddol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn berthnasol i unigolion a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus, neu'n gymwys i fod yn aelodau ohono, ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail i'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r safbwynt cyfreithiol, sef bod aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r cynllun etifeddol perthnasol am gyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn berthnasol oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl wrth ymddeol i benderfynu derbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun Alpha yn lle hynny o 1 Ebrill 2015 tan 31 Mawrth 2022.

Mae ffigurau buddion pensiwn CETV y flwyddyn flaenorol wedi cael eu diweddaru ers adroddiad y llynedd i adlewyrchu gwybodaeth fwy cyflawn a chywir. O ran S Williams, hepgorwyd dau werth trosglwyddo i mewn o ganlyniadau'r llynedd. Tanddatganwyd ffigurau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) y flwyddyn flaenorol ar gyfer T Jenkins ac M Pascoe, a thanddatganwyd hawl pensiwn priod D Burley, hefyd.

**Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil**

Darperir buddion pensiwn trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sydd wedi'i rannu'n adrannau gwahanol – mae **classic, premium, a classic plus** yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, tra bod **nuvos** yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu **alpha**, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi, a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gwasanaethu, â'r cynllun newydd.

Mae'r PCSPS ac **alpha** yn gynlluniau statudol heb eu hariannu. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6% ac 8.05%, yn dibynnu ar gyflog). Mae balans costau'r buddion sy'n daladwy yn cael ei dalu gan arian a bleidleisir gan Senedd San Steffan bob blwyddyn. Cynyddir pensiynau sy'n daladwy bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Yn lle'r trefniadau buddion diffiniedig, caiff cyflogeion ddewis pensiwn cyfraniadau diffiniedig gyda chyfraniad gan y cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn **partneriaeth**.

Yn **alpha**, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32% o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae'r cyfanswm a gronnir yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a osodir gan Drysorlys EF. Caiff aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a osodir gan Ddeddf Cyllid 2004. Cafodd buddion PCSPS yr holl aelodau a newidiodd i **alpha** o'r PCSPS eu 'bancio', a bydd y rhai hynny â buddion cynharach yn un o rannau cyflog terfynol PCSPS yn cael y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael **alpha**.

Y pensiynau cronedig a ddangosir yn yr adroddiad hwn yw'r pensiwn y mae gan yr aelod yr hawl i'w dderbyn pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu ar unwaith ar ôl peidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun, os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu'n hŷn na hynny. 60 yw'r oedran pensiwn arferol ar gyfer aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, 65 ar gyfer aelodau **nuvos**, ac Oedran Pensiwn y Wladwriaeth neu 65, pa un bynnag yw'r uchaf, ar gyfer aelodau **alpha**. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu **alpha**, fel y bo'n briodol. Pan fydd gan aelod fuddion yn y PCSPS ac **alpha**, mae'r ffigurau'n dangos cyfuniad o werth ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai rhannau cyfansawdd y pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oedrannau.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd trefniadau pontio a oedd yn trin aelodau presennol cynlluniau'n wahanol yn seiliedig ar

eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn y PCSPS yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i **alpha**. Yn 2018, penderfynodd y Llys Apêl fod y trefniadau pontio yn y cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau ("dyfarniad McCloud").

O ganlyniad, mae camau'n cael eu cymryd i unioni diwygiadau 2015, gan wneud darpariaethau'r cynllun pensiwn yn deg i'r holl aelodau. Mae'r rhwymedi pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn cynnwys dwy ran. Caeodd y rhan gyntaf y PCSPS ar 31 March 2022, a daeth yr holl aelodau gweithredol yn aelodau o **alpha** ar 1 Ebrill 2022. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oed ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, trwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r PCSPS ar 1 Hydref 2023.

Mae'r buddion pensiwn cronedig, y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a chyfanswm y ffigur tâl unigol a adroddwyd ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno wedi cael eu cyfrifo yn seiliedig ar ei gynnwys yn y PCSPS am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gymwys i unigolion a oedd yn aelodau, neu'n gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail i'r cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol, sef bod aelodau yr effeithir arnynt wedi cael eu trosglwyddo'n ôl i'r PCSPS am gyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn gymwys oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl wrth ymddeol i benderfynu derbyn buddion a gyfrifwyd o dan delerau'r cynllun **alpha** yn lle hynny am y cyfnod o 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2022.

Mae'r cyfrif pensiwn **partneriaeth** yn drefniant pensiwn galwedigaethol cyfraniad diffiniedig sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r cyflogai gyfrannu, ond pan fydd yn gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn eu cyfateb hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Bydd cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% arall o gyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddion risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad o ganlyniad i salwch).
Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

**Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod**

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafu ar ôl asesiad actiwaraidd o fuddion cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall a drosglwyddwyd gan yr aelod i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd gan yr aelod o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir CETVau yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygiad) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a allai fod yn ddyledus pan fydd buddion pensiwn yn cael eu codi.

### Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig o ganlyniad i chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

### Rhwymedigaethau pensiwn

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) ac alpha yn gynlluniau diffiniedig aml-gyflogwr nad ydynt yn cael eu cyllido, ond nid yw'r Comisiwn yn gallu nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cynhaliwyd prisiad gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2020. Mae manylion ar gael yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet:

Civil Superannuation Annual Report and Accounts 2023-24

Telir y cyfryw symiau i'r Tâl-feistr Cyffredinol ag a allai fod yn briodol i gynrychioli rhwymedigaethau sy'n crynhoi ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Staff ar dudalen 35 a nodyn 1.13 i'r cyfrifon.

Ar gyfer 2025-26, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £205,476 (2024- 25: £171,473) yn daladwy i'r PCSPS ar gyfradd o 28.97% (2024-25: 28.97%) o enillion pensiynadwy, ar sail bandiau cyflog. Fel arfer, mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad o'r cynllun cyfan. Diwygiwyd y bandiau cyflog a'r cyfraddau cyfraniadau ar gyfer 2024-25 ac ni fyddant yn newid tan 2028-29. Mae'r bandiau cyflog a'r cyfraddau cyfraniadau yn adlewyrchu buddion wrth iddynt gronni, nid pan eir i'r costau mewn gwirionedd, ac maen nhw'n adlewyrchu profiad blaenorol o'r cynllun.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Mae cyfraniadau gan y cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac maen nhw'n amrywio o 8.0% i 14.75% o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau cyflogeion hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Nid yw'r un o'r swyddogion a gyflogir gan y Comisiwn yn aelod o'r cynllun pensiwn partneriaeth.

Nid oedd neb wedi ymddeol ar sail iechyd gwael yn ystod y flwyddyn.

### lawndal ar gyfer colli swydd

Ni wnaed unrhyw daliadau mewn perthynas â cholli neu derfynu swydd yn ystod 2025-26 (ac ni wnaed unrhyw daliadau yn ystod 2024-25).

### Niferoedd Staff a Chostau Cysylltiedig *(yn destun archwiliad)*

| | 2025-26 Staff a gyflogir yn barhaol £ | 2025-26 Aelodau'r Comisiwn £ | 2025-26 Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | **715,252** | **74,392** | **789,644** |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | **95,737** | **4,678** | **100,415** |
| **Costau pensiwn** | **205,476** | **-** | **205,476** |
| **Cyfanswm Costau Net** | **1,016,465** | **79,070** | **1,095,535** |

**Nifer yr unigolion a gyflogir ar gyfartaledd**
**Roedd nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn fel a ganlyn:**

| | Nifer | Nifer | Nifer |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyflogir yn Uniongyrchol** | **14** | **13.5** | **27.5** |
| **Cyfanswm Staff** | **14** | **13.5** | **27.5** |

Comparatives:

| | 2024-25 Staff a gyflogir yn barhaol £ | 2024-25 Aelodau'r Comisiwn £ | 2024-25 Cyfanswm £ |
|---|---|---|---|
| Cyflogau | 598,256 | 40,959 | 639,215 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 65,838 | 751 | 66,589 |
| Costau pensiwn | 171,473 | - | 171,473 |
| | 835,567 | 41,710 | 877,277 |

Nifer yr unigolion a gyflogir ar gyfartaledd
Roedd nifer gyfartalog yr unigolion cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl y categorïau hyn fel a ganlyn:

| | Nifer | Nifer | Nifer |
|---|---|---|---|
| Cyflogir yn Uniongyrchol | 12.5 | 10.8 | 23.3 |
| Cyfanswm Staff | 12.5 | 10.8 | 23.3 |

Mae'r costau uchod ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan y cyllid penodedig o £185,000 (2024-25; £229,757) a dderbyniwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ar gyfer cynnal y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystod blynyddoedd pan na chynhelir arolwg. Cydnabyddiaeth ariannol yr aelodau ar ran y Comisiwn Ffiniau i Gymru oedd £1,011 (2024-25; £2,528).

## Costau Ymgynghoriaeth

Yn ystod 2025-26, talodd y Comisiwn £148,947 (2024-25: £2,544) i gwmni ymgynghoriaeth a gyflogwyd i gynorthwyo'r Comisiwn i ddatblygu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

## Polisi Cyflogeion

Mae'r Comisiwn yn cynnal craidd o staff a gyflogir yn uniongyrchol, sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, Pennaeth Polisi a Rhaglenni, Pennaeth Busnes, Pennaeth Iechyd Democrataidd, Rheolwr Cyllid, Rheolwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu, dau Swyddog Arolygu a dau Swyddog Cymorth Busnes. Mae gan y staff a gyflogir yn uniongyrchol fandiau cyflog a thelerau ac amodau gwasanaeth sy'n gyfatebol i staff Llywodraeth Cymru o'r un graddau.

Mae gan y Comisiwn ystod eang o bolisïau sy'n adlewyrchu deddfwriaeth gyfredol, a'u nod yw sicrhau y caiff staff eu cadw a'u cymell. Caiff y polisïau hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff pob polisi ei wirio o ran cydraddoldeb cyn ei roi ar waith. Achredwyd y Comisiwn â'r safon Buddsoddwyr Mewn Pobl (BMP) yn gyntaf yn 2009. Roedd yr achrediad hwn yn destun adolygiad dilynol yn ystod 2024-25 a ddaeth i'r casgliad y dylai'r Comisiwn gadw ei achrediad BMP.

## Cyfansoddiad Staff

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y staff cyfwerth ag amser llawn (CALl) a nifer y staff o ran cyfrif pennau ar gyfer 2025-26 ar 31 Mawrth 2025.

| Band Cyflog | Gwrywaidd | Benywaidd |
|---|---|---|

| | CALI | % | Cyfrif Pennau | % | CALI | % | Cyfrif Pennau | % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelod o'r Comisiwn[1 2] | 6 | 47 | 6 | 46 | 6.8 | 53 | 7 | 54 |
| Prif Weithredwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 100 | 1 | 100 |
| Gradd 7 | 3 | 100 | 3 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Uwch-Swyddog Gweithredol | 2 | 80 | 2 | 50 | 0.5 | 20 | 2 | 50 |
| Rheolwr Arolygon (Swyddog Gweithredol Uwch) | 1 | 33 | 1 | 33 | 2 | 67 | 2 | 67 |
| Rheolwr Arolygon (Swyddog Gweithredol) | 1 | 37 | 1 | 33 | 1.7 | 63 | 2 | 67 |
| Cymorth Tîm | 0.3 | 100 | 1 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **13.3** | **56** | **14** | **56** | **12** | **47** | **14** | **50** |
| Cyfanswm y flwyddyn flaenorol | 13.8 | 65 | 14 | 64 | 7.7 | 35 | 8 | 36 |
| Amrywiant | -0.47 | 0 | 0 | 0 | +1.3 | +3 | +3 | +6 |

[1] Yn cynnwys 3 Aelod o'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru.
[2] Defnyddir ffigurau cyfrif pennau ar gyfer niferoedd Aelodau CALl y Comisiwn.

**Cyfle Cyfartal**

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth a'i nod yw sicrhau nad yw unrhyw gyflogai neu ddarpar gyflogai yn cael ei drin yn fwy neu'n llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu statws rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Comisiwn yn sicrhau bod cyfleusterau priodol ar gael i gyflogeion anabl.

**Absenoldeb oherwydd Salwch**

Yn ystod 2025-26, roedd chwe aelod o staff parhaol y Comisiwn yn absennol oherwydd salwch am gyfanswm o 40 niwrnod (2024-25 – roedd chwe aelod o staff parhaol y Comisiwn yn absennol oherwydd salwch am gyfanswm o 46 diwrnod).

**Iechyd, Diogelwch a Lles**

Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi Iechyd a Diogelwch Staff a pholisi Codi a Chario, ac mae asesiad risg tân ac adolygiad iechyd a diogelwch annibynnol yn cael eu cynnal yn flynyddol. Mae'r Comisiwn hefyd wedi cael ei achredu gan Wobr Iechyd y Gweithle Bach trwy ennill y wobr Efydd.

**SHEREEN WILLIAMS**
Swyddog Cyfrifyddu
7 Hydref 2026

## Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

### Barn am y datganiadau ariannol

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 o dan Baragraff 19 Rhan 2 Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith gymwys a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ar 31 Mawrth 2026 a'i wariant gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y Deyrnas Unedig, fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a roddwyd o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ystyr berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y Deyrnas Unedig (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif ar gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol a phriodol i ddarparu sail i'm barn.

### Casgliadau ynglŷn â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad fod y defnydd o'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi amlygu unrhyw ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan gaiff y datganiadau ariannol eu hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Mae fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol wedi'u disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Defnyddir y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gan ystyried y gofynion a amlinellir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF, sy'n mynnu bod endidau'n defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol pan ddisgwylir y bydd y gwasanaethau a ddarperir ganddynt yn parhau yn y dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried p'un a yw'r wybodaeth arall yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi'i chamddatgan yn berthnasol. Os nodaf unrhyw anghysondebau perthnasol neu gamddatganiadau perthnasol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu p'un a yw hyn yn peri camddatgan perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os deuaf i'r casgliad, ar sail y gwaith a gyflawnais, fod camddatgan perthnasol o ran y wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi adrodd y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd, yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd sydd i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Rhagair, yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr adroddaf arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd wrth gynnal yr archwiliad, nid wyf wedi canfod camddatganiadau o bwys yn y Rhagair, yr Adroddiad ar Berfformiad a'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ei gylch mewn perthynas â'r materion canlynol yr adroddaf i chi, os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad;
- nad oes cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu nad oes ffurflenni sy'n ddigonol i'm harchwiliad wedi cael eu derbyn gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a archwiliwyd yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a bennwyd gan Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill wedi'i datgelu;

- na ddatgelir cydnabyddiaeth ariannol benodol a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF neu nad yw'r rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r datganiadau cyfrifyddu; neu
- nad yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu priodol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol a bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol;
- y cyfryw reolaethau mewnol ag y mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag camddatganiadau o bwys, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall;
- asesu gallu Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, materion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Swyddog Cyfrifyddu yn disgwyl na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynglŷn â ph'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd rhag camddatgan perthnasol, p'un a achoswyd hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y Deyrnas Unedig) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn berthnasol pe gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wnaed ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellwyd uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi rheolwyr, archwilwyr mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol yn ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sy'n ymwneud â'r canlynol:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau a ph'un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll a ph'un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig; a'r
  - rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.

- Ystyried, fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Yn rhan o'r drafodaeth hon, amlygais botensial am dwyll mewn cofnodion anarferol;
- Cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith hanfodol ar weithrediadau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru; a
- Chael dealltwriaeth o'r berthynas â phartïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r hyn a ddatgelwyd yn y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi rheolwyr, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Comisiwn; ac
- wrth fynd i'r afael â risg twyll drwy ddiystyru rheolaethau gan reolwyr, profi pa mor briodol yw cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau a luniwyd wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i'r busnes arferol.

Roeddwn hefyd wedi cyfleu'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd a'r risgiau posibl o ran twyll i holl aelodau'r tîm archwilio, ac roeddwn yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwyf yn cael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai hynny sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Catherine Mealing-Jones
Archwilydd Cyffredinol Cymru
8 Hydref 2026

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio'r cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal gwefan Comisiwn Democratiaeth A Ffiniau Cymru a sicrhau ei chywirdeb; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw'r archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau y gellid bod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan yn gyntaf.

# DATGANIADAU ARIANNOL

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## DATGANIAD O WARIANT NET CYNHWYSFAWR
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026**

| | Nodiadau | **2026** £ | 2025 £ |
|---|---|---|---|
| Incwm | 4 | **(185,186)** | (296,159) |
| **Cyfanswm Incwm Gweithredu** | | **(185,186)** | (296,159) |
| **COSTAU** | | | |
| Costau staff | 2 | **1,095,535** | 877,277 |
| Gwariant gweithredu arall | 3 | **1,079,429** | 617,818 |
| **Cyfanswm Gwariant Gweithredu** | | **2,174,964** | 1,495,095 |
| **Gwariant Gweithredu Net** | | **1,989,778** | 1,198,936 |
| Costau Cyllid | | **5,755** | 1,339 |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y Flwyddyn** | | **1,995,533** | 1,200,275 |

Mae'r holl weithgareddau wedi'u dosbarthu'n rhai parhaus

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU
## DATGANIAD O'R SEFYLLFA ARIANNOL
**ar 31 Mawrth 2026**

| | Nodiadau | 31 Mawrth 2026 | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **ASEDAU ANGHYFREDOL** | | | |
| Asedau Anniriaethol | 5 | **223,845** | - |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 6 | **110,852** | 106,909 |
| Asedau Hawl Defnyddio | 7 | **102,822** | 139,421 |
| Rhag-daliadau | 9 | **14,287** | - |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **451,806** | 246,330 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 9 | **115,230** | 71,076 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 10 | **38,003** | 5,398 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **153,233** | 76,474 |
| **Cyfanswm asedau** | | **605,039** | 322,804 |
| **RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | | | |
| Masnach a symiau taladwy eraill | 11 | **(74,270)** | (55,086) |
| Rhwymedigaeth Les Hawl Defnyddio | | **(24,300)** | (26,620) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol** | | **(98,570)** | (81,706) |
| **Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | **506,469** | 241,098 |
| **RHWYMEDIGAETHAU ANGHYFREDOL** | | | |
| Rhwymedigaeth Les Hawl Defnyddio | | **(68,599)** | (97,705) |
| Darpariaethau | 16 | **(18,888)** | (18,888) |
| **Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(87,487)** | (116,593) |
| **ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU** | | **418,982** | 124,505 |
| **ARIANNWYD GAN:** | | | |
| Cronfeydd wrth gefn cyffredinol | | **418,982** | 124,505 |
| | | **418,982** | 124,505 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn gan y Swyddog Cyfrifyddu i'w cyhoeddi ar xxxxxxxxx 2026.

**SHEREEN WILLIAMS**
Swyddog Cyfrifyddu
7 Hydref 2026

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## DATGANIAD LLIFOEDD ARIAN
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026**

| | Nodiadau | 2026 | 2025 |
|---|---|---|---|
| | | £ | £ |
| **Llifoedd arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Costau gweithredu net | | **(1,989,778)** | (1,198,936) |
| Addasiadau ar gyfer: | | | |
| Gostyngiad / (Cynnydd) mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill | | **(58,441)** | (33,128) |
| Amorteiddiad Asedau Anniriaethol | 5 | **3,794** | - |
| Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer | 6 | **43,014** | 36,440 |
| Dibrisiant Asedau Hawl Defnyddio (gan gynnwys costau cychwynnol) | 7 | **27,111** | 61,182 |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn symiau masnach derbyniadwy | | **19,184** | (20,662) |
| Cynnydd / (Gostyngiad) mewn darpariaethau | | **-** | - |
| (Elw) / Colled wrth waredu asedau sefydlog | | **-** | 1,083 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(1,955,116)** | (1,154,021) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 6 | **(46,957)** | (109,864) |
| Prynu asedau anniriaethol | 5 | **(227,639)** | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(274,596)** | (109,864) |
| **Llifoedd arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | | **2,290,010** | 1,280,000 |
| Taliad les Hawl Defnyddio | | **(27,693)** | (59,004) |
| | | **2,262,317** | 1,220,996 |
| **Cyllido net** | | | |
| Cynnydd /(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 10 | **32,605** | (42,889) |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 10 | **5,398** | 48,287 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod | | **38,003** | 5,398 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU

## DATGANIAD O NEWIDIADAU I ECWITI TRETHDALWYR
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026**

| | Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol £ |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | 44,780 |
| **Balans ar 1 Ebrill 2024** | 44,780 |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2024-25** | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 1,280,000 |
| Gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (1,200,275) |
| **Balance at 31 March 2025** | 124,505 |
| **Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2025-26** | |
| Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru | 2,290,010 |
| Gwariant cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | (1,995,533) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | 418,982 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 48 i 56 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

**COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**

**NODIADAU I'R DATGANIADAU ARIANNOL**
**ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026**

## 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol 2025-26 y Llywodraeth (FReM yn seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EF. Mae'r polisïau cyfrifyddu sydd wedi eu cynnwys yn y FReM yn cymhwyso'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru er mwyn rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisïau penodol a fabwysiadwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

### 1.1 Cyfarwyddyd Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru o dan Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013.

### 1.2 Confensiwn Cyfrifyddu

Paratoir y cyfrifon o dan y confensiwn cost hanesyddol a addaswyd i ystyried ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, asedau anniriaethol a stocrestrau.

### 1.3 Gwariant ar Weinyddu a Rhaglenni

Dosberthir cyllid y Comisiwn a dderbynnir oddi wrth Lywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol fel cyllid ar gyfer gwariant ar raglenni gan y ddwy Adran. Ystyrir felly mai incwm a gwariant rhaglenni yw'r holl ffigurau incwm a gwariant a ddangosir ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### 1.4 Prisio Asedau Anghyfredol

Caiff asedau anghyfredol eu cyfalafu ar gost caffael a gosod, lle mae'r gost honno'n fwy na £500. Caiff Eiddo, Peiriannau ac Offer eu datgan ar werth teg. Defnyddir cost hanesyddol wedi ei dibrisio fel procsi ar gyfer gwerth teg i bob math o ased, oherwydd bod gan bob un ohonynt un ai oes ddefnyddiol fer, gwerth isel, neu'r ddau ohonynt. Yn ei hanfod, caiff yr holl eiddo, peiriannau ac offer eu grwpio'n un o ddau ddosbarth, asedau TG neu Ddarnau Gosod, Dodrefn ac Offer. Pan fydd nifer o eitemau sylweddol unfath, â gwerthoedd unigol islaw'r trothwy cyfalafu, yn cael eu prynu fel grŵp ac mae eu gwerth cyfanredol yn uwch na'r trothwy cyfalafu, mae'r Comisiwn yn ystyried eu bod yn asedau cyfalaf.

Mae ased anniriaethol yn ased anariannol adnabyddadwy heb sylwedd ffisegol. Bydd Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn cyfalafu asedau anniriaethol sy'n fwy na £1,000 ac sydd ag oes ddefnyddiol o bum mlynedd neu fwy. Codir tâl am amorteiddiad o'r dyddiad y mae'r ased ar gael i'w ddefnyddio, ac mae'n cael ei gymhwyso ar sail pro rata a'i adolygu'n flynyddol.

Mae'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig wedi cael ei gyfalafu fel ased

anniriaethol ac ystyrir bod ganddo oes ddefnyddiol o 5 mlynedd.

Cyfrifir am ffioedd adnewyddu blynyddol ar gyfer meddalwedd gwmwl fel gwariant refeniw, felly codir tâl amdanynt yn llawn pan fo'r nwyddau a'r gwasanaethau wedi cael eu derbyn.

### 1.5 Asedau Hawl Defnyddio

Caiff lesoedd eu cyfalafu pan fydd y Comisiwn yn cael budd economaidd o ddefnyddio'r ased hwnnw. Caiff asedau eu cyfalafu ar werth cyfanswm y taliadau ar hyd cyfnod y les. Nid yw lesoedd â gwerth canlyniadol o lai na £5,000 yn cael eu cyfalafu ac fe'u trinnir fel lesoedd gweithredu. Caiff eiddo ei ddibrisio i'w werth gweddilliol ar hyd cyfnod y les ar sail rhwng 5 ac 11 mlynedd.

### 1.6 Dibrisiant

Caiff dibrisiant asedau anghyfredol ei gyfrifo i ddileu eu cost neu brisiad dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff yr holl asedau anghyfredol eu dibrisio dros gyfnod o bump neu ddeng mlynedd, yn dibynnu ar oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yr ased. Caiff dibrisiant blwyddyn lawn ei godi yn ystod y flwyddyn gaffael a dim yn ystod y flwyddyn waredu.

### 1.7 Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaeth yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol pan fydd gan y Comisiwn rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol a'i bod yn debygol y bydd angen all-lif buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth.

### 1.8 Buddion cyflogeion

Rhoddir cyfrif am gost darparu buddion cyflogeion yn ystod y cyfnod y caiff y buddion eu hennill gan gyflogeion. Darperir ar gyfer gwyliau blynyddol dros y cyfnod y mae'r gwyliau hynny'n cronni. Cyflwynwyd y polisi cyfrifyddu hwn yn 2009-10, yn unol â gofyniad IAS19, Buddion Cyflogeion.

### 1.9 Cyllid

Mae'r Comisiwn yn cael Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru i ariannu ei weithgareddau refeniw a chyfalaf cyffredinol. Yn unol â'r FReM, caiff y Cymorth Grant hwn ei ystyried yn gyllid a chaiff ei gredydu i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar ôl ei dderbyn.

### 1.10 Incwm

Mae symiau derbyniadwy heblaw am Gymorth Grant gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hystyried yn incwm yn hytrach na chyllid. Daw'r brif ffynhonnell incwm o'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau i dalu am gost cynnal Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru yng Nghaerdydd. Yn ystod 2025-26, cafodd y Comisiwn gyllid ychwanegol hefyd gan Lywodraeth Cymru i sefydlu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

### 1.11 Stocrestrau

Nid yw'r Comisiwn yn dal unrhyw stoc o werth sylweddol.

1.12 **Treth ar Werth (TAW)**

Mae'r holl wariant yn cynnwys TAW gan nad yw'r Comisiwn wedi ei gofrestru ar gyfer TAW ac felly nid yw'n gallu adennill TAW adenilladwy.

1.13 **Pensiynau**

Telir y cyfryw symiau i'r Tâl-feistr Cyffredinol ag a allai fod yn briodol i gynrychioli rhwymedigaethau sy'n crynhoi ym Mhensiwn y Gwasanaeth Sifil o ran pensiynau a buddion eraill tebyg ar gyfer unigolion a gyflogir gan y Comisiwn ac mewn perthynas â'r treuliau gweinyddol sy'n briodoladwy i'r rhwymedigaethau a'u cyflawni. Caiff cyflogeion blaenorol a phresennol eu cynnwys yn narpariaethau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ceir rhagor o fanylion yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol.

1.14 **Rheoli Risg Ariannol**

Nid oes gan y Comisiwn unrhyw fenthyciadau ac mae'n dibynnu ar grantiau Llywodraeth Cymru yn bennaf ar gyfer ei ofynion arian parod. Hefyd, nid oes ganddo unrhyw adneuon sylweddol a chaiff yr holl asedau a rhwymedigaethau arwyddocaol eu henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg o ran cyfraddau llog na risg arian cyfred.

1.15 **Effaith Safonau nad ydynt ar waith hyd yn hyn**

Mae Aelodau'r Comisiwn wedi ystyried effaith Safonau a Dehongliadau a gyhoeddwyd, ond nad ydynt ar waith hyd yn hyn ac nad yw'r Comisiwn wedi eu mabwysiadu'n gynnar. Nid yw'r Aelodau'n disgwyl y bydd mabwysiadu'r Safonau a'r Dehongliadau hyn yn y dyfodol yn cael unrhyw effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y Comisiwn.

1.16 **Offerynnau Ariannol**

Nid oes gan y Comisiwn unrhyw offerynnau ariannol sylweddol. Gall offerynnau tymor byr gynnwys arian parod, dyledwyr masnach a chredydwyr masnach. Lle y bo'n berthnasol, mae'r gwerth cyfredol yr un fath â'r gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn.

1.16.1 **Symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill**

Nid yw symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill yn dwyn unrhyw log a chânt eu datgan ar eu gwerth enwol fel y'u gostyngwyd gan lwfansau priodol ar gyfer symiau anadenilladwy amcangyfrifedig.

1.16.2 **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod**

Mae arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw, adneuon tymor byr a buddsoddiadau tra hylifol tymor byr eraill y mae'n hawdd eu trosi'n swm arian hysbys ac sy'n destun risg ansylweddol o newidiadau mewn gwerth.

1.16.3 **Symiau masnach a symiau taladwy eraill**

Nid yw symiau masnach a symiau taladwy eraill yn dwyn llog a chânt eu datgan ar eu gwerth enwol.

1.16.4 **Benthyciadau**

Nid oes unrhyw fenthyciadau na gorddrafftiau sy'n dwyn llog.

1.16.5 **Amhariad**

Caiff gwerth asedau'r Comisiwn i'w ddwyn ymlaen ei adolygu ar ddyddiad pob mantolen er mwyn penderfynu a oes unrhyw arwydd o amhariad. Os yw'r cyfryw arwydd yn bodoli, caiff swm adenilladwy'r asedau ei amcangyfrif. Swm adenilladwy ased yw'r mwyaf o'i bris gwerthu net a'i werth wrth ei ddefnyddio.

Caiff Asedau Ariannol a Rhwymedigaethau Ariannol sy'n deillio o gontractau ar gyfer prynu neu werthu eitemau anariannol eu cydnabod wrth iddynt ddigwydd h.y. wrth dderbyn neu ddanfon y nwyddau neu'r gwasanaethau.

1.17 **Rhwymedigaethau Les Hawl Defnyddio**

Caiff lesoedd eu cyfalafu pan fydd y Comisiwn yn cael budd economaidd o ddefnyddio'r ased hwnnw. Caiff y rhwymedigaeth gysylltiedig ei chydnabod yn y datganiadau ariannol fel cyfanswm y taliadau ar hyd cyfnod y les wedi'i ddisgowntio ar gyfradd llog sylfaenol y Comisiwn.

1.18 **Lesoedd Gweithredu**

Caiff costau les weithredu eu codi ar y datganiad costau gweithredu yn ystod y flwyddyn yr eir i'r costau hynny.

## 2. COSTAU STAFF

Daeth costau staff ar gyfer y flwyddyn i £1,095,535 (2024-25; £877,277) ac roeddent yn cynnwys £789,644 (2024-25; £639,215) mewn cyflogau, £100,416 (2024-25; £66,589) mewn costau nawdd cymdeithasol a £205,476 (2024-25; £171,473) mewn costau pensiwn. Rhoddir dadansoddiad manylach o'r costau hyn yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ar dudalen 31.

## 3. GWARIANT GWEITHREDU ARALL

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Costau Cynnal | | |
| Teithio a Chynhaliaeth Staff | **5,160** | 3,722 |
| Teithio a Chynhaliaeth Aelodau'r Comisiwn | **3,251** | 5,197 |
| Ffioedd Cyrsiau a Hyfforddiant Staff | **23,894** | 19,291 |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru – ffi archwilio flynyddol | **18,795** | 19,937 |
| Ffioedd Archwilio Mewnol | **16,947** | 9,266 |
| Y Cyfryngau a Hysbysebu | **212,658** | 106,186 |
| Cyfieithu | **26,000** | 44,964 |
| Argraffu, postio, offer swyddfa ac Adnoddau Dynol | **10,681** | 7,964 |
| Ffôn a chontractau | **-** | 330 |
| Costau llety | **63,058** | 59,195 |
| Cyfreithiol a phroffesiynol | **213,371** | 40,702 |
| Costau cyfrifiadurol anghyfalafol | **407,558** | 200,046 |
| Arall | **4,137** | 3,396 |
| Eitem Anariannol: | | |
| Amorteiddiad | **3,794** | - |
| Dibrisiant Eiddo, Peiriannau ac Offer | **43,014** | 36,440 |

| | | |
|---|---|---|
| Dibrisiant Asedau Hawl Defnyddio | **27,111** | 61,182 |
| Cyfanswm | **1,079,429** | 617,818 |

Mae'r costau gwariant gweithredu eraill uchod yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan y cyllid penodedig o £185,000 a dderbyniwyd gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) ar gyfer cynnal y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn ystod blynyddoedd pan na chynhelir arolwg (2024-25; £229,757).

## 4. INCWM

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| MHCLG – Comisiwn Ffiniau i Gymru | **185,000** | 229,757 |
| Costau a ad-dalwyd ar gyfer staff ar secondiad | **-** | 14,561 |
| Costau Arolygon Cymunedol | **-** | 39,523 |
| Costau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol | **-** | 12,100 |
| Ad-daliadau eraill | **-** | 83 |
| Ad-daliad Cerdyn Caffael Cymru | **186** | 135 |
| | **185,186** | 296,159 |

Incwm cyllido yw Cymorth Grant ac fe'i credydir yn uniongyrchol i'r cronfeydd wrth gefn. Yn ystod 2025-26, derbyniodd y Comisiwn £185,000 o gyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol i dalu costau cynnal Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru yng Nghaerdydd (2024-25, £229,757). Roedd y costau llai o gymharu â'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i'r ffaith na chynhaliwyd unrhyw waith arolygu ar ôl cwblhau Arolwg 2023 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru.

## 5. ASEDAU ANNIRIAETHOL

| | **£** |
|---|---|
| **Cost neu Brisiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | - |
| Ychwanegiadau | 227,639 |
| Gwarediadau | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | 227,639 |
| | |
| **Amorteiddiad** | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | - |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 3,794 |
| Dilëwyd wrth waredu | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | 3,794 |
| | |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2026** | 223,845 |

Mae'r ychwanegiadau asedau anniriaethol yn 2025-26 yn ymwneud yn unig â datblygu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.

## 6. EIDDO, PEIRIANNAU AC OFFER

| | Offer TG | Dodrefn a Ffitiadau | Lesddaliad | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | | £ |
| **Cost neu Brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 141,324 | 13,875 | 96,299 | 251,498 |
| Ychwanegiadau | 46,957 | - | - | 46,957 |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | 188,281 | 13,875 | 96,299 | 298,455 |
| | | | | |
| **Dibrisiant** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | 112,550 | 12,779 | 19,260 | 144,589 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 23,246 | 508 | 19,260 | 43,014 |
| Dilëwyd wrth waredu | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | 135,796 | 13,287 | 38,520 | 187,603 |
| | | | | |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2026** | 52,485 | 588 | 57,779 | 110,852 |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | 28,774 | 1,096 | 77,039 | 106,909 |

Mae'r Comisiwn yn berchen ar yr holl Asedau. Mae'r ased Lesddaliad yn cyfeirio at welliannau a wnaed i'r llety swyddfa cyn dechrau les newydd ym Mharc Cathays.

## 7. ASEDAU HAWL DEFNYDDIO

| | Les Tŷ Hastings | Les Parc Cathays | Les Offer Swyddfa | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £ | £ | £ | £ |
| **Cost neu Brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | - | 145,516 | 7,803 | 153,319 |
| Ychwanegiadau | - | - | - | - |
| Symudiadau eraill | - | (9,488) | - | (9,488) |
| Gwarediadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | - | 136,028 | 7,803 | 143,831 |
| | | | | |
| **Dibrisiant** | - | | | |
| Ar 1 Ebrill 2025 | - | 13,500 | 398 | 13,898 |
| Tâl ar gyfer y flwyddyn | - | 25,531 | 1,580 | 27,111 |
| Dilëwyd wrth waredu | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | - | 39,031 | 1,978 | 41,009 |
| | | | | |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2026** | - | 96,997 | 5,825 | 102,822 |
| **Gwerth i'w Ddwyn Ymlaen ar 31 Mawrth 2025** | - | 132,016 | 7,405 | 139,421 |

Diwygiwyd y cyfrifiad ar gyfer les Cathays yn 2025-26, gan arwain at addasiadau i'r balansau asedau hawl defnyddio a rhwymedigaeth les. Cydnabuwyd effaith gronnol hyn yn y flwyddyn bresennol oherwydd aseswyd bod y gwall yn amherthnasol.

## 8. OFFERYNNAU ARIANNOL

Gan fod gofynion arian parod y Comisiwn yn cael eu bodloni trwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg nag a fyddai'n berthnasol i gorff nad yw yn y sector

cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu eitemau anariannol, yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwyliedig y Comisiwn, ac felly nid yw'r Comisiwn yn agored i lawer o risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad. Cymhwysir IFRS 9 Offerynnau Ariannol, fel y'i dehonglwyd a'i haddaswyd ar gyfer y sector cyhoeddus. Prif effaith mabwysiadu IFRS 9 fydd newid y sail gyfrifo ar gyfer darpariaethau drwgddyledion, gan newid o sail colled a ysgwyddir i sail colled credyd disgwyliedig (ECL) hyd oes. Ystyriodd ac asesodd y Comisiwn ofynion newydd IFRS 9 a nododd na fyddai unrhyw effaith ar y cyfrifon hyn.

## 9. SYMIAU MASNACH SY'N DDERBYNIADWY AC ASEDAU CYFREDOL ERAILL

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **115,230** | 71,076 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn mwy na blwyddyn:** | | |
| Rhagdaliadau ac incwm cronedig | **14,287** | - |
| **Cyfanswm** | **129,517** | 71,076 |

## 10. ARIAN PAROD A'R HYN SY'N CYFATEB I ARIAN PAROD

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Balans ar 1 Ebrill | **5,398** | 48,287 |
| Newid net i falansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | **32,605** | (42,889) |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | **38,003** | 5,398 |
| Balans ar 31 Mawrth | **38,003** | 5,398 |

## 11. SYMIAU MASNACH SY'N DALADWY A RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL ERAILL

| | **2026** | 2025 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:** | | |
| Symiau masnach sy'n daladwy | **5,946** | 4,288 |
| Croniadau | **38,340** | 25,674 |
| Tâl gwyliau cronedig | **29,984** | 25,124 |
| | **74,270** | 55,086 |

## 12. TALIADAU ARBENNIG A CHOLLEDION

Cofnododd y Comisiwn golledion a ddaeth i gyfanswm o £0 yn ystod 2025-26 (2024-25: £1,284).

## 13. TRAFODIADAU PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Ystyrir bod Llywodraeth Cymru yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Comisiwn drafodiadau perthnasol â Llywodraeth Cymru yn gysylltiedig â gwariant ar gyfer rhent llety a ddaeth i £88,375. Mae gan y Comisiwn gyfanswm rhwymedigaeth les IFRS16 gyda Llywodraeth Cymru o £86,990 yn gysylltiedig â les llety swyddfa ym Mharc Cathays (2024-25, £116,870). Daeth y Cymorth Grant a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn i £1,529,000, a derbyniwyd £761,000 arall yn gysylltiedig â'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (2024-25, £1,280,000). Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, nid oedd unrhyw weddill yn ddyledus gyda Llywodraeth Cymru (2024-25: dim gweddill yn ddyledus).

Mae Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn hefyd yn gweithredu fel Ysgrifenyddiaeth i'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru (CFfG). Corff Cyhoeddus Anadrannol yw CFfG a noddir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Ystyrir bod y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, nid yw'r Comisiwn wedi cynnal unrhyw drafodiadau perthnasol â'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024-25, dim trafodion perthnasol). Yn ystod 2025-26, cafodd y Comisiwn £185,000 o gyllid gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024-25, £229,757). Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, nid oedd unrhyw weddill yn ddyledus gyda'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (2024-25: dim gweddill yn ddyledus).

Nid yw'r Comisiwn wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau ag endidau y mae gan aelodau a staff rheoli allweddol fuddiant ynddynt.

## 14. DADANSODDIAD O WARIANT NET YN ÔL SEGMENT

Mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn adlewyrchu'r segmentau y caiff canlyniadau gweithredu Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru eu hadrodd i'r Comisiwn ynddynt. Nid oes gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru segmentau a nodir ar wahân ac mae'n adrodd am wybodaeth ariannol i'w Fwrdd fel y datgelir yn Nodiadau 2, 3 a 4.

## 15. RHWYMEDIGAETHAU AC ASEDAU AMODOL

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau nac asedau amodol ar ddiwedd 2025-26 (2024-25: Dim rhwymedigaethau amodol).

## 16. DARPARIAETHAU AR GYFER RHWYMEDIGAETHAU A THALIADAU

| | Dadfeiliadau ac adfer<br>£ | **Cyfanswm**<br>**£** |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill 2025 | 18,888 | **18,888** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | - | **-** |
| Darpariaethau nad oeddent yn ofynnol a adferwyd | - | **-** |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | **-** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | 18,888 | **18,888** |

Cymhwysir disgowntio, pan fo'n berthnasol. Ni ystyriwyd bod disgowntio ar y ffigur amcangyfrifedig ar gyfer dadfeiliadau yn berthnasol, felly ni chymhwyswyd disgowntio.

Gwneir darpariaethau ar gyfer ailaddurno yn ystod cyfnod y les ac ar gyfer dadfeiliadau,

i ddychwelyd yr adeiladau i'w cyflwr gwreiddiol, ar ddiwedd cyfnod y les. Gallai'r rhwymedigaethau hyn amrywio o ganlyniad i wybodaeth a digwyddiadau yn y dyfodol a allai arwain at newidiadau i'r symiau sydd wedi cael eu cynnwys, ar sail yr amcangyfrif gorau, ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'r darpariaethau hyn wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru yn ystod y flwyddyn, fel sy'n ofynnol gan IAS 37.

**Dadansoddiad o amseriad disgwyliedig y rhwymedigaeth yn y dyfodol**

| | Dadfeiliadau ac adfer | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| | £ | **£** |
| Dim hwyrach na blwyddyn | - | **-** |
| Hwyrach na blwyddyn a dim hwyrach na 5 mlynedd | 18,888 | **18,888** |
| Hwyrach na 5 mlynedd | - | **-** |
| Cyfanswm | 18,888 | **18,888** |

## 17. DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 7 Hydref 2026 gan y Swyddog Cyfrifyddu. Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol ar ôl y fantolen i'w datgelu ar ôl y cyfnod adrodd, sy'n effeithio ar 2025-26. O 2026-27 ymlaen, bydd y Comisiwn yn gyfrifol am sefydlu'r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig.